



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



Llywio, dylanwadu ar a chydweithio  
ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru  
Informing, influencing and collaborating  
for public health in Wales



WHIASU  
Wales Health Impact  
Assessment Support Unit  
Uned Gymorth Asesu  
Effaith ar Iechyd Cymru

# Effaith ar iechyd, llesiant a thegwch y Cytundeb Partneriaeth Traws-Môr Tawel Cynhwysfawr a Chynyddol (CPTPP) ar Gymru

## Adroddiad Cryno



Awduron

Liz Green, Leah Silva, Michael Fletcher, Louisa Petchey, Laura Morgan, Margaret Douglas,  
Sumina Azam, Courtney McNamara

Gorffennaf 2023

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

## Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yw asiantaeth iechyd y cyhoedd Cymru.

Mae'n gorff cyhoeddus sydd â chylch gwaith i hybu a diogelu iechyd a llesiant y cyhoedd. Mae'n darparu cyngor iechyd y cyhoedd annibynnol. Mae ei Strategaeth Hirdymor yn canolbwyntio ar 6 maes blaenoriaeth gan gynnwys gweithredu ar:

- Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
- Hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol
- Hyrwyddo ymddygiad iach
- Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth
- Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd

O dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddyletswydd statudol i gynnal a chynorthwyo cyrff cyhoeddus ar Asesiadau Effaith ar Iechyd (HIA).



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

## Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr HIA, a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ac a roddodd adborth ar yr adroddiad.

ISBN 978-1-83766-191-6

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/)

cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>
<b>Rhestr Termau</b>	<b>12</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>15</b>
<b>2. Methodoleg</b>	<b>18</b>
<b>3. Dadansoddiad</b>	<b>19</b>
<b>4. Prif Ganfyddiadau</b>	<b>37</b>
<b>Casgliad</b>	<b>41</b>
<b>Cyfyngiadau</b>	<b>42</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>43</b>
<b>Gwybodaeth Dechnegol Ategol</b>	<b>48</b>
<b>Atodiad 1   Methodoleg</b>	<b>48</b>
<b>Atodiad 2   Matricsau Meysydd Blaenoriaeth</b>	<b>49</b>
<b>Atodiad 3   Mapio effeithiau posibl y CPTPP yn erbyn 7 nod llesiant Deddf LCD</b>	<b>61</b>



# Crynodeb Gweithredol

## Pwrpas:

Darparu crynodeb byr o ganfyddiadau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) y Cytundeb Partneriaeth Traws-Môr Tawel Cynhwysfawr a Chynyddol (CPTPP) ar Gymru. Mae'r adroddiad hwn yn drosolwg strategol lefel uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n crynhoi'r prif effeithiau ar iechyd, llesiant a thegwch a allai ddigwydd yn y tymor byr a'r tymor hwy ar ôl i'r DU ymuno â'r CPTPP. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd hyd at fis Mehefin 2023.

Cydnabyddir efallai nad oedd rhywfaint o dystiolaeth ar gael i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn, ac y bydd rhagor o fanylion a thystiolaeth yn dod i'r amlwg pan gaiff y CPTPP ei lofnodi ym mis Gorffennaf 2023, ei gyhoeddi a'i roi ar waith. Gall hyn newid tebygolrwydd neu gryfder yr effeithiau posibl a nodwyd gennym. Wrth lofnodi, bydd tystiolaeth o effaith yn cymryd amser i ddod i'r amlwg.

Nod ein hadroddiad yw:

- 1. Helpu i lywio'r gwaith o ddadansoddi a chraffu ar y cytundeb CPTPP** adeg ei lofnodi drwy godi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd y mae gan y cytundeb y potensial i effeithio ar iechyd y cyhoedd, llesiant a thegwch yng Nghymru yn y tymor byr a'r tymor hwy.
- 2. Dangos manteision cynnwys asiantaethau iechyd y cyhoedd mewn trafodaethau masnach** a'r gwerth penodol y gall HIA ei gynnig fel proses ar gyfer nodi a deall effeithiau posibl polisi a chytundebau masnach ar iechyd y cyhoedd.
- 3. Helpu cydweithwyr ar draws y gweithlu iechyd y cyhoedd, eiriolwyr masnach ac iechyd a sefydliadau iechyd y cyhoedd cenedlaethol eraill y DU, i ddeall pwysigrwydd rôl masnach mewn creu iechyd yn well.**
- 4. Cyn cyhoeddi'r telerau terfynol, mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi i godi ymwybyddiaeth o feysydd strategol sydd wedi'u nodi a allai effeithio ar iechyd a llesiant a'r grwpiau poblogaeth** a allai gael eu heffeithio'n wahanol gan y cytundeb.







## Canfyddiadau allweddol

Amlygodd tystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid, llenyddiaeth lwyd, gwybodaeth iechyd a chyfweliadau â rhanddeiliaid a gasglwyd ynghyd drwy'r broses asesu'r effaith ar iechyd (HIA), offeryn iechyd y cyhoedd uchel ei barch ac sydd wedi'i hen sefydlu, y canlynol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

- **Mae masnach yn benderfynydd masnachol allweddol o iechyd ac yn bwysig ar gyfer economïau a chymdeithasau iach a gall ddarparu llawer o gyfleoedd** ar gyfer gwledydd sy'n masnachu a'u poblogaethau.
- 
- Mae'r **diffyg tryloywder ar fanylion y trafodaethau** hyd yma wedi gwneud nodi effeithiau posibl ar iechyd y cyhoedd yn heriol. Dau faes pwysig o ansicrwydd i'w hamlygu yw:
    - ◆ Sut y gallai darpariaethau Setliadau Anghydfodau Buddsoddwr Wladwriaeth (ISDS) ryngweithio â pholisi iechyd y cyhoedd; a
    - ◆ Y posibilrwydd o drafod llythyrau atodol ar feysydd penodol neu gyda rhai aelodau CPTPP, yn debyg i'r llythyr atodol iechyd y cyhoedd a drafodwyd ochr yn ochr â Chytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia. Gallai datblygu llythyrau atodol fod yn bwysig os ydynt yn mynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd allweddol sy'n ymwneud, er enghraifft, â rheoli tybaco, labelu bwyd, cydweithredu i reoli clefydau heintus, neu eithrio o fecanwaith ISDS.
  - **Gan nad yw'r DU wedi ymuno â'r CPTPP eto, mae'r effeithiau posibl ar Gymru yn benodol, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn rhai posibl ac nid yn rhai gwirioneddol.** Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gynllunio i gynnwys ystyriaeth o sut y gallai ymuno â'r CPTPP ddatblygu yn y tymor byr ond hefyd yn y tymor hwy, gan gydnabod y **gall sut y daw'r cytundeb i rym newid** yn dibynnu ar:
    - ◆ **Blaenoriaethau polisi llywodraethau'r dyfodol;** ac
    - ◆ **Aelodaeth o'r CPTPP** os bydd gwledydd ychwanegol yn ennill aelodaeth.

- Defnyddiwyd tystiolaeth o wledydd sydd eisoes yn aelodau o'r CPTPP i lywio'r dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o bryderon tebyg gan wledydd eraill sydd eisoes yn aelodau o'r CPTPP, ynghylch effeithiau darpariaethau'r Cytundeb Masnach Rydd (FTA), ond rhaid bod yn ofalus wrth drosglwyddo hwn i Gymru o ystyried y cyd-destunau cenedlaethol gwahanol.

- 
- **Mae gan y CPTPP y potensial i effeithio ar ystod o faterion iechyd y cyhoedd** ar draws penderfynyddion cymdeithasol iechyd, **yn gadarnhaol ac yn negyddol**. Mae'n **ddarlun cymhleth a thechnegol o effaith**. Mae ganddo'r potensial **i effeithio ar wahanol boblogaethau mewn gwahanol ffyrdd**, a all arwain at **ehangu anghydraddoldebau iechyd presennol**.
    - ◆ **Mae effeithiau negyddol posibl yn y tymor hwy yn cynnwys** safonau a diogelwch bwyd is; diet a maethiad gwaeth; heriau i weithredu a chyflwyno polisiau ecogyfeillgar a sero net; mwy o ysmegu a defnydd o alcohol; llai o fynediad at wasanaethau gofal iechyd a meddyginiaethau a chost gynyddol y rhain; rheoliadau diogelu data gwannach yn arwain at straen a phryder ynghylch rhannu data personol.
    - ◆ **Mae'r bobl sydd fwyaf mewn perygl o'r effeithiau negyddol hyn yn cynnwys:** y rhai ar incwm isel neu o ardaloedd dan anfantais economaidd; y rhai â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a chyflyrau cronig.
    - ◆ **Gallai effeithiau a chyfleoedd economaidd cadarnhaol posibl yn y tymor hwy** gynnig gwelliannau iechyd a llesiant i rai, ond mae hyn yn ddibynnol iawn ar y buddion economaidd posibl yn gorbwyso niwed economaidd a niwed cymdeithasol posibl eraill.

- 
- Nid yw HIA o'r CPTPP wedi'i gynnal ar lefel y DU, sy'n golygu nad yw effeithiau posibl y CPTPP ar iechyd, llesiant a thegwch ar gyfer y DU gyfan wedi'u nodi eto. **Mae HIA yn offeryn gwerthfawr y gallai Llywodraeth y DU a Llywodraethau eraill ei ddefnyddio i nodi effeithiau posibl y CPTPP** a chytundebau masnach eraill ar draws penderfynyddion cymdeithasol iechyd a thegwch ar wahanol gamau o'r broses negodi **i lywio a galluogi trafodaethau a gwneud penderfyniadau cynhwysol**.

- 
- **Byddai ymchwil pellach i'r materion a nodwyd fel** rhan o'r gwaith hwn ac effaith cytundebau masnach yn gyffredinol **yn gwella'r ddealltwriaeth** o'r effeithiau iechyd, llesiant a thegwch posibl a pha **weithredu y gallai fod ei angen i liniaru risgiau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd**. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer yr **effeithiau tymor hwy**.

- 
- **Dylai gwaith adolygu a dadansoddi pellach** ddigwydd yn y dyfodol ar ôl i delerau terfynol y cytundeb gael eu cyhoeddi. Edrychwn ymlaen at weld telerau llawn y cytundeb ymuno ac rydym yn cydnabod y bydd goblygiadau llawn ymuno â'r CPTPP yn cymryd amser i ddod i'r amlwg ynghyd â mwy o dystiolaeth a dadansoddiadau cyhoeddedig.
-

## Cefndir y polisi

Yn ddiweddar, mae'r DU wedi cytuno i ymuno ag un o FTAs mwyaf y byd, a elwir yn CPTPP. Gall cytundebau masnach gael ystod eang o effeithiau ar iechyd, llesiant a llunio polisiâu. Mae'r CPTPP yn FTA presennol, sy'n cynnwys ystod eang o wledydd ymyl y Môr Tawel (Awstralia, Brunei, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Seland Newydd, Periw, Singapore, a Fietnam). Mae rhagor o wybodaeth am y CPTPP ar gael yn: [Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership \(CPTPP\) | The Institute for Government](#).

Rhagflaenydd y CPTPP oedd y Bartneriaeth Traws-Môr Tawel (TPP). Chwaraeodd yr Unol Daleithiau (UD) ran ganolog wrth ddrafftio telerau'r cytundeb ac er iddi dynnu'n ôl yn ddiweddarach, mae'r fargen yn parhau yn arddull cytundeb masnach yr UD. Mae hon yn faes newydd i'r DU, gyda'i chytundebau masnach eraill naill ai'n gytundebau treigl a gafodd eu negodi gan yr UE pan oedd y DU yn Aelod, neu'n gytundebau y mae Llywodraeth y DU wedi'u negodi o'r newydd ee gydag Awstralia a Seland Newydd. Mae pryder ynghylch effeithiau iechyd posibl FTA DU gyda'r UD wedi'i godi, gyda'r cam yn ôl ar safonau hylendid bwyd a chynnyrch, er enghraifft, yn cael ei ddyfynnu'n aml (McNamara, 2021a). Mae'r CPTPP yn cynnwys llawer o'r un darpariaethau a fyddai'n debygol o gael eu cynnwys mewn cytundeb rhwng UD-DU ac felly, gallai gael ystod yr un mor eang o effeithiau iechyd a thegwch (McNamara et al., 2023).

**Mae angen nodi a chofnodi effeithiau posibl y CPTPP ar iechyd, llesiant a thegwch er mwyn i lunwyr polisi yn y DU a Chymru gael dealltwriaeth gyflawn o oblygiadau posibl y DU yn ymuno â'r CPTPP ac, ar ben hynny, os ydynt yn mynd i weithredu ar y cyfleoedd a'r heriau y mae'n eu cyflwyno.**

Cymhlethir effaith aelodaeth o'r CPTPP ar Gymru gan y ffaith bod negodi masnach ryngwladol yn fater a gadwyd yn ôl gan lywodraeth y DU, a rhaid i wledydd datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon geisio dylanwadu ar flaenoriaethau Llywodraeth y DU. Bydd angen i lawer o'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt gan delerau cytundebau masnach ddeall yn well effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl masnach ar eu hamgylchedd, cymdeithas, economi ac iechyd a llesiant er mwyn eirioli'n effeithiol dros eu sectorau, cymunedau a buddiannau. Mae'r HIA hwn yn darparu mewnwelediad sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth am effeithiau posibl y CPTPP ar Gymru a phwy y gellir effeithio arnynt, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae HIA yn broses systematig a hyblyg sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid ac sy'n seiliedig ar ystod o dystiolaeth ansoddol a meintiol a gwybodaeth iechyd.

Dim ond un HIA o FTA a gynhaliwyd yn flaenorol. Roedd hyn yn 2015 ac yn canolbwyntio ar HIA Awstralia o ragflaenydd y CPTPP – y cytundeb Partneriaeth Traws Môr Tawel (TPP). Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn: <https://bmjopen.bmj.com/content/6/4/e010339> and [http://hiaconnect.edu.au/wp-content/uploads/2015/03/TPP\\_HIA.pdf](http://hiaconnect.edu.au/wp-content/uploads/2015/03/TPP_HIA.pdf)

## Effeithiau penodol a grwpiau'r boblogaeth a nodwyd

Nodwyd ystod eang o effeithiau ar draws y penderfynyddion iechyd yn y tymor hwy. Mae'r rhain yn cynnwys **effeithiau a chyfleoedd cadarnhaol posibl ac effeithiau negyddol posibl ar iechyd a llesiant** ar gyfer rhai grwpiau poblogaeth.

### Effeithiau cadarnhaol / cyfleoedd

Mae'r rhai a nodwyd yn cynnwys:

- **Penderfynyddion economaidd**, gan gynnwys **mwyastron gyfleoedd masnachu a chyflogaeth**. Er enghraifft, gallai perchnogion busnesau yng Nghymru gael cyfleoedd newydd mewn marchnadoedd CPTPP neu gael mynediad at amodau masnachu mwyastron ffafriol. Gallai fod cynnydd posibl hefyd mewn partneriaethau ac ymchwil gofal iechyd a'r maes fferyllol.
- **Penderfynyddion iechyd a gofal cymdeithasol** gan gynnwys mwyastron o gydweithio, cyfleoedd datblygu a chydweithio ar recriwtio gweithlu ar lefel ryngwladol.

### Effeithiau negyddol / effeithiau negyddol anfwriadol

Mae'r rhai a nodwyd yn cynnwys:

- **Llastron allu i reoleiddio nwyddau nad ydynt yn iach a safonau bwyd**, sy'n effeithio ar ymddygiadau iechyd a chanlyniadau iechyd cysylltiedig, gan arwain at 'amharoddrwydd rheoleiddiol'. Mae enghreifftiau'n cynnwys newidiadau mewn cyfyngiadau o ran labelu a chynnwys, a chostau cymharol bwyd a gynhyrchir gartref a chynnyrch bwyd wedi'i fewnforio. Gallai masnach anghyfreithlon yn y rhain fod yn broblem hefyd.
- **Ffactorau cymdeithasol** gan gynnwys llai o ddiogelu data a phreifatrwydd a allai gael effaith ar llesiant meddwl.
- **Ffactorau amgylcheddol** gan gynnwys y posibilrwydd o waethygu llygredd aer byd-eang oherwydd pellteroedd cludo ar gyfer nwyddau ac ychydig yn unig o le i wella rheoliadau amgylcheddol
- **Effeithiau economaidd** o gwmpas **colli cyflogaeth o bosibl** ar gyfer rhai grwpiau poblogaeth er enghraifft y rhai ar incwm isel. Mae tarfu ehangach ar y farchnad lafur hefyd yn bosibl.
- **Efallai na fydd rheoliadau llafur yn y CPTPP yn gwneud llawer i wella neu sicrhau amodau gwaith da** drwy reoleiddio, er gwaethaf honni bod ganddo ddarpariaethau 'safon aur'.
- **Darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chost** meddyginiaethau ac offer.
- **Gostyngiad yng nghyllidebau'r llywodraeth ac amharoddrwydd rheoleiddiol oherwydd ISDS** – gallai cost ariannol uchel amddiffyn deddfwriaeth newydd yn erbyn ISDS gyfrannu at gyllidebau'r llywodraeth neu atal llywodraethau rhag mynd ar drywydd rheoliadau cryfach er budd iechyd y cyhoedd yn y lle cyntaf ("amharoddrwydd rheoleiddiol").



## Grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt

Mae posibilrwydd y bydd y **boblogaeth gyfan** yn cael ei heffeithio gan y CPTPP drwy'r effaith ar wasanaethau megis iechyd a gofal cymdeithasol, mynediad at gynhyrchion bwyd wedi'u mewnfario, neu drwy effeithiau macro-economaidd. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio'n anghymesur. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithluoedd gofal iechyd
- Y rhai â salwch cyfyngus hirdymor / sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd yn rheolaidd
- Y rhai ar incwm isel neu o grwpiau eraill dan anfantais gymdeithasol
- Grwpiau amaethyddol
- Perchnogion busnes



## Camau i ddiogelu a hybu iechyd, llesiant a thegwch y boblogaeth

- Gall llywodraethau'r DU a llywodraethau eraill ddefnyddio HIAs fel offeryn gwerthfawr sy'n cipio effeithiau posibl y CPTPP a chytundebau masnach eraill ar draws penderfynyddion ehangach iechyd, llesiant a thegwch. Gellir gweithredu'r rhain ar wahanol gamau o'r broses negodi a gweithredu er mwyn llywio a galluogi trafodaeth gynhwysol a gwneud penderfyniadau.
- Eithriadau priodol o ISDS i alluogi'r DU a'r gwledydd datganoledig i ddeddfu ar gyfer polisiau cyhoeddus iach sy'n ymwneud, er enghraifft, â labelu neu hysbysebu alcohol a bwyd heb her gyfreithiol, neu ofn her gyfreithiol sy'n arwain at amharoddrwydd rheoleiddiol. Gall hyn hefyd ddiogelu cyllid cyhoeddus rhag y risg o heriau cyfreithiol drud.
- Cyhoeddi testun terfynol y cytuniad yn agored ac yn dryloyw ac unrhyw ddadansoddiad gan Lywodraeth y DU i gefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid, craffu a thrafodaeth.
- Negodi llythyrau atodol ag aelod-wledydd CPTPP unigol i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd allweddol gan gynnwys:
  - ◆ eithriad ISDS;
  - ◆ labelu a rheoli tybaco ac alcohol;
  - ◆ labelu, cynnwys a safonau bwyd;
  - ◆ cydweithredu i reoli clefydau heintus;
  - ◆ amddiffyniad a hawliau gweithwyr;
  - ◆ cytundebau cydweithredu ar lif y proffesiynau gweithlu iechyd;
  - ◆ gweithredu ar yr amgylchedd, hinsawdd ac argyfyngau natur.
- Ni ddylai darpariaethau cytundeb masnach rydd danseilio caffael cynaliadwy a deddfwriaeth ledled y DU.
- Mae gan Gymru dirwedd bolisi unigryw gan gynnwys deddfwriaeth, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) y mae angen ei hystyried wrth negodi cytundebau masnach.
- Rhaid i ymarferwyr iechyd y cyhoedd a swyddogion polisi ddysgu o achosion cyfreithiol llwyddiannus ac aflwyddiannus blaenorol lle mae cwmnïau preifat a chorfforaethau rhyngwladol wedi herio polisiau iechyd y cyhoedd. Rhaid iddynt wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod polisiau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol yn cael eu diogelu.
- Ymdrechion parhaus i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall polisi a chytundebau masnach effeithio ar iechyd a pholisiau a deddfwriaeth cyhoeddus iach. Mae gan Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd, asiantaethau fel Sefydliad Iechyd y Byd, cymdeithas sifil ac academia rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth.
- Er mwyn helpu i osgoi effeithiau negyddol anfwriadol cytundebau masnach, megis y CPTPP, ar iechyd, llesiant a thegwch mae angen i'r DU a llywodraethau wneud darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â chynrychiolwyr iechyd y cyhoedd a chymdeithas sifil. Dylai hyn fod yn gyfwerth o leiaf â'r rhai a roddir i randdeiliaid busnes o dan y CPTPP neu gytundebau masnach eraill.
- Byddai ymchwil pellach i'r materion a nodwyd fel rhan o'r gwaith hwn ac effaith cytundebau masnach yn gyffredinol yn gwella'r dealltwriaeth o'r effeithiau iechyd a thegwch posibl a pha weithredu y gallai fod ei angen i liniaru risgiau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys casglu effeithiau tymor hwy cytundebau masnach ar iechyd a llesiant.

## Casgliad

Gellir defnyddio canfyddiadau'r HIA hwn i lywio gweithrediad y DU yn ymuno â'r CPTPP i wneud y mwyaf o'r buddion posibl i iechyd y cyhoedd a lliniaru unrhyw risgiau posibl. Gellir ei ddefnyddio hefyd i graffu a monitro unrhyw effaith yn y dyfodol.

**Mae HIA y CPTPP wedi nodi ystod o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar iechyd a llesiant yng Nghymru.** Mae'n darparu gwell dealltwriaeth o'r effaith ar draws y boblogaeth gyfan yn ogystal ag ar gyfer gwahanol grwpiau poblogaeth; gan ddatgelu ei botensial i ehangu anghydraddoldebau presennol, yn enwedig o ystyried y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd presennol yn y DU ac yn rhyngwladol.

**Mae HIA yn offeryn iechyd y cyhoedd buddiol, sefydledig.** Mae ei elfen gyfranogol, mewn cydweithrediad â natur seiliedig ar dystiolaeth yr asesiad, yn ychwanegu gwerth a thystiolaeth a gwybodaeth gyd-destunol i ffurfio darlun cyfannol o effaith. Yn hollbwysig, gall nodi meysydd gweithredu posibl ar gyfer eiriolwyr iechyd y cyhoedd ac **amlygu pwysigrwydd effeithiau iechyd, llesiant a thegwch i'r rhai sy'n negodi, ffurfio a gweithredu polisi a chytundebau masnach. Edrychwn ymlaen at weld telerau llawn y cytundeb.**



# Rhestr Termau

**Partneriaeth Traws Môr Tawel Cynhwysfawr a Chynyddol (CPTPP)** – Mae'r CPTPP yn gytundeb masnach rydd (FTA) rhwng 11 gwlad o amgylch Ymyl y Môr Tawel: Canada, Mecsico, Periw, Chile, Seland Newydd, Awstralia, Brunei, Singapore, Malaysia, Fietnam a Japan (Sefydliad y Llywodraeth, 2020)

---

**Cytuniad Siarter Ynni (ECT)** – Cynlluniwyd y Cytuniad Siarter Ynni i hyrwyddo diogelwch ynni drwy weithrediad marchnadoedd ynni mwy agored a chystadleuol, tra'n parchu egwyddorion datblygu cynaliadwy a sofraniaeth dros adnoddau ynni. Ar hyn o bryd mae 53 o lofnodwyr a phartïon contractio, gan gynnwys yr Undeb Ewropeaidd. Fe'i llofnodwyd ym mis Rhagfyr 1994 a daeth i rym ym mis Ebrill 1998 (Siarter Ynni Rhyngwladol, dim dyddiad)

---

**Confensiwn Patent Ewropeaidd (EPC)** – Cytundeb rhyngwladol wedi'i lofnodi gan aelod-wladwriaethau'r Sefydliad Patentau Ewropeaidd, sy'n darparu system gyfreithiol unedig ar gyfer rhoi patentau Ewropeaidd (Swyddfa Patentau Ewropeaidd, dim dyddiad)

---

**Bytholwyrddni** – Ymestyn patentau fel iawndal am 'oedi afresymol' o ran llywodraethau yn cyhoeddi patent, neu os yw'r cwmni fferyllol yn canfod 'defnyddiau newydd, dulliau newydd o ddefnyddio ... neu brosesau newydd' ar gyfer eu meddyginiaeth (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b)

---

**Gwaith Teg** – Gwaith teg yw lle mae gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, yn cael eu clywed a'u cynrychioli, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd iach, cynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu (Gwaith Teg Cymru, 2019).

---

**Cytundeb Masnach Rydd (FTA)** – Mae FTAs yn lleihau rhwystrau i fasnach rhwng dwy wlad neu fwy trwy leihau neu ddileu tariffau a chwotâu mewnforio. Mae aelodau cytundebau o'r fath yn dal i allu negodi cytundebau masnach ar wahân gyda gwledydd eraill. Caniateir y cytundebau hyn o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO), er gwaethaf cynnig mynediad ffafriol i wledydd partner ac nid holl aelodau WTO (UK in a Changing Europe, 2020)

---

**Dynodiad Daeryddol** – Hawl eiddo deallusol a ddefnyddir ar gynhyrchion sydd â rhinweddau neu nodweddion y gellir eu priodoli i ranbarth daeryddol penodol (ee wisgi'r Alban a chaws Stilton) (Llywodraeth y DU, 2020)

---

**Prynu Gwyrdd** – Prynu cynnyrch sy'n cael effaith negyddol lai neu is neu fwy o effaith gadarnhaol ar iechyd dynol a'r amgylchedd, o'i gymharu â chynhyrchion cystadleuol sy'n cyflawni'r un pwrpas (NASPO, dim dyddiad)

---

**Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA)** – Mewn economeg, gwerth ychwanegol crynswth (GVA) yw'r mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant neu sector o economi. Mewn cyfrifon cenedlaethol GVA yw allbwn llai defnydd canolraddol; mae'n eitem fantoli yng nghyfrif cynhyrchu'r cyfrifon cenedlaethol (Green et al., 2019)

---



**Canolfan Ryngwladol ar gyfer Setlo Anghydfodau Buddsoddi (ICSID)** – ICSID yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw yn y byd sydd wedi'i neilltuo i setliadau anghydfod buddsoddi rhyngwladol. Mae gwladwriaethau wedi cytuno ar ICSID fel fforwm ar gyfer setlo anghydfodau rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau (ISDS) yn y rhan fwyaf o gytundebau buddsoddi rhyngwladol ac mewn nifer o gyfreithiau a contractau buddsoddi (ICSID, dim dyddiad)

**Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO)** – Mae'r ILO wedi'i neilltuo i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol a llafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, gan ddilyn ei genhadaeth sefydlu bod heddwch llafur yn hanfodol i ffyniant (Cenhedloedd Unedig, dim dyddiad)

**Setliad Anghydfodau Buddsoddwyr Wladwriaeth (ISDS)** – Mae ISDS yn fecanwaith cyfreithiol sy'n caniatáu i fuddsoddwyr o un wladwriaeth contractio i gytundeb buddsoddi rhyngwladol i ddwyn hawliad yn erbyn gwladwriaeth contractio arall y mae wedi gwneud buddsoddiad ynddi (Senedd Ewrop, 2015)

**Darpariaethau 'Cysylltiad'** – Mae Erthygl 18.53 (Darpariaeth Eiddo Deallusol) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr sy'n cymeradwyo meddyginiaethau roi rhybudd i ddeiliaid patentau am unrhyw gynhyrchion sy'n cystadlu â'i gilydd yn seiliedig ar yr un darganfyddiadau, a chyfle i wrthwynebu er mwyn eu rhwystro (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021)

**Cytundeb Amgylcheddol Amlochrog (MEA)** – Mae MEAs yn gytundebau rhwng tair gwladwriaeth neu fwy sy'n cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol penodol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a byd-eang (Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig, dim dyddiad)

**Egwyddor Ragofalus** – Mae'r egwyddor ragofalus yn nodi, os oes gan gynnyrch, gweithred, neu bolisi risg a amheuir o achosi niwed i'r cyhoedd neu'r amgylchedd, y dylid cefnogi gweithredu amddiffynnol cyn bod prawf gwyddonol cyflawn o risg. Yn absenoldeb consensws gwyddonol, mae'r egwyddor yn awgrymu bod cyfrifoldeb cymdeithasol i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed posibl (Olsen a Motarjemi, 2014)

**Eithriad Gwasanaethau Cyhoeddus** – Mae'r CPTPP yn cynnwys rhestr negyddol ar gyfer gwasanaethau sy'n golygu bod pob gwasanaeth yn cael ei gynnwys oni bai bod gwlad yn eu heithrio'n benodol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Mae'r testun yn nodi mai dim ond "gwasanaethau nad ydynt yn cael eu [darparu] ar sail fasnachol nac mewn cystadleuaeth ag un neu fwy o gyflenwyr gwasanaethau" y gellir eu heithrio rhag rhyddfrydoli (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018)

**Amharodrwydd Rheoleiddiol** – deallir bod Amharodrwydd Rheoleiddiol yn atal gwladwriaethau rhag deddfu rhai mesurau rheoleiddiol neu bolisi cyhoeddus o ganlyniad i gyflafareddu, neu ofn hynny, o dan ddarpariaethau setlo anghydfodau buddsoddwyr wladwriaethau (ISDS), a thrwy hynny gyfyngu ar hawl gwladwriaethau i reoleiddio (Shekhar, 2016)

**Cydlyniant Rheoleiddiol** – Defnyddio arferion rheoleiddiol da yn y broses o gynllunio, dylunio, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu mesurau rheoleiddiol er mwyn hwyluso cyflawni amcanion polisi domestig, ac mewn ymdrechion ar draws llywodraethau i wella cydweithrediad rheoleiddiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion hynny a hyrwyddo masnach a buddsoddi rhyngwladol, twf economaidd a chyflogaeth (Partion TPP, 2016)



**Cytundebau Treigl** – Cytundebau'r DU yn unig â gwledydd o fewn yr UE, sy'n trosglwyddo darpariaethau tebyg i fargeinion y DU yn unig. Y bwriad yw atal y DU rhag colli buddion o gytundebau masnach yr UE (UK in a Changing Europe, 2021)

---

**Rheolau Tarddiad** – Rheolau tarddiad yw'r meini prawf sydd eu hangen i bennu ffynhonnell wladol cynnyrch (WTO, dim dyddiad - a)

---

**Mesurau Iechydol a Ffytioiechydol (SPS)** – Unrhyw fesurau a ddefnyddir i amddiffyn bywyd dynol neu anifeiliaid rhag risgiau sy'n deillio o ychwanegion, halogion, tocsinau neu organebau sy'n achosi clefydau yn eu bwyd; i amddiffyn bywyd dynol rhag clefydau a gludir gan blanhigion neu anifeiliaid; i amddiffyn bywyd anifeiliaid neu blanhigion rhag plâu, clefydau, neu organebau sy'n achosi clefydau; i atal neu gyfyngu ar ddifrod arall i wlad rhag mynediad, sefydlu neu ledaenu plâu (WTO, dim dyddiad - b) Mae rheolau SPS WTO yn diffinio'r amodau y gall mesurau iechyd y cyhoedd yn y meysydd hyn gyfyngu ar fasnachu oddi tanynt heb dorri rheolau masnach (McNamara et al., 2021a)

---

**Llythyr Atodol** – Gall aelodau CPTPP gyfnewid llythyrau (llythyrau atodol) yn ddwyochrog i drefnu trefniant dwyochrog arbennig i leihau rhai o'u rhwymedigaethau (Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b)

---

**Rhwysrau Technegol i Fasnachu (TBT)** – Nod y Cytundeb Rhwysrau Technegol i Fasnachu (TBT) yw sicrhau bod rheoliadau technegol, safonau, a gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn anwahaniaethol ac nad ydynt yn creu rhwysrau diangen i fasnach (WTO, dim dyddiad - c). Y prif ofynion i Gytundeb TBT WTO yw nad yw rheoliadau'n creu "rhwysrau diangen i fasnach ryngwladol", ac os oes mesurau amgen yn bodoli, rhaid gweithredu'r rhai sy'n "llai cyfyngus ar fasnach" (McNamara et al., 2021a)

---

**Partneriaeth Traws-Môr Tawel (TPP)** – Roedd y TPP yn gytundeb masnach rydd a fyddai'n rhyddhau masnach a buddsoddiad rhwng 12 o wledydd ymyl y Môr Tawel. Y gwledydd yw Seland Newydd, Awstralia, Brunei, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Periw, Singapore, yr Unol Daleithiau a Fietnam (Materion Tramor a Masnach Seland Newydd, dim dyddiad) Dyma rhagflaenydd y CPTPP

---

**UPOV91** – Mae'r Undeb Rhyngwladol dros Ddiogelu Amrywogaethau Newydd o Blanhigion (UPOV) yn gorff rhynglywodraethol swyddogol sy'n gweithio'n unig ac yn benodol i breifateiddio hadau ledled y byd trwy osod hawliau eiddo deallusol ar fathau o blanhigion. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym 1991, ac ym 1994 cytunodd Sefydliad Masnach y Byd y dylai holl aelod-wledydd y WTO gael hawliau eiddo deallusol ar gyfer mathau o blanhigion ac mae dros 70 o wledydd yn aelodau heddiw (GRAIN, 2015)

---

**Sefydliad Masnach y Byd (WTO)** – Y WTO yw'r unig sefydliad rhyngwladol byd-eang sy'n delio â rheolau masnach rhwng gwledydd. Wrth ei gwraidd mae cytundebau Sefydliad Masnach y Byd, a drafodwyd ac a lofnodwyd gan y rhan fwyaf o wledydd masnachu'r byd a'u cadarnhau yn eu seneddau. Y nod yw helpu cynhyrchwyr nwyddau a gwasanaethau, allforwyr a mewnforwyr i gynnal eu busnes (WTO, dim dyddiad - d)

---

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir a chyd-destun Polisi


Yn ddiweddar, mae'r Deyrnas Unedig (DU) wedi cwblhau trafodaethau i ymuno ag un o Gytundebau Masnach Rydd (FTAs) mwyaf y byd, a elwir yn y Cytundeb Partneriaeth Traws-Môr Tawel Cynhwysfawr a Chynyddol (CPTPP). Mae'r CPTPP yn FTA presennol, sy'n cynnwys ystod eang o wledydd ymyl y Môr Tawel (Awstralia, Brunei, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Seland Newydd, Periw, Singapore, a Fietnam). Mae Llywodraeth y DU wedi dyfynnu rhesymau geo-wleidyddol ac economaidd dros ymuno gan fod y CPTPP yn cael ei weld fel rhan allweddol o wyriad polisi tramor y DU ar ôl Brexit i'r Indo-Môr Tawel (Politico, 2023c). Mae Llywodraeth y DU yn gweld derbyn y CPTPP yn gyfle ar gyfer twf yn y farchnad ac i symud eu ffocws economaidd o Ewrop tuag at rannau o'r byd sy'n tyfu'n gyflymach, gan gynnwys marchnadoedd defnyddwyr mawr yn Asia-Môr Tawel (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021c). Dadleuir y bydd y CPTPP yn torri tariffau ar gyfer diwydiannau'r DU, gan gynnwys bwyd a diod yn ogystal â cheir, a bydd yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer technolegau modern fel technoleg a gwasanaethau, a all gefnogi a chreu swyddi gwerth uchel ledled y DU (Adran Masnach Ryngwladol, 2021b).

Mae masnach yn bwysig i economïau a chymdeithasau gweithredol a gall ddarparu llawer o gyfleoedd cadarnhaol i wledydd sy'n masnachu a'u poblogaethau (Labonte, 2016, Llywodraeth y DU, 2023). Gall cytundebau masnach gael ystod eang o effeithiau ar iechyd, llesiant a llunio polisiâu (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b) (gweler ffigur 1). Gallant effeithio ar iechyd, llesiant a thegwch yn gadarnhaol ac yn negyddol drwy newid gofynion polisi a phrosesau yn ogystal ag argaeledd, cost a safonau bwyd, nifer a mathau o swyddi, a'r arian sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y system iechyd a gofal cymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Gelwir pob un ohonynt yn benderfynyddion cymdeithasol iechyd – yr amodau y mae pobl yn cael eu geni, tyfu, byw, gweithio ac heneiddio ynddynt (Dahlgren a Whitehead, 1991). Ar yr un pryd, mae masnach a chytundebau masnach yn benderfynyddion masnachol pwysig o iechyd sy'n cynnwys, er enghraifft, marchnata, cynhyrchu a chyflogaeth. Diffinnir y rhain fel 'gweithgareddau sector preifat sy'n effeithio ar iechyd pobl, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn gadarnhaol neu'n negyddol' (WHO, 2023).

Gall rhai cytundebau masnach gynnwys mecanweithiau sy'n galluogi polisi newydd y llywodraeth i gael ei herio'n gyfreithiol os ystyrir ei fod yn cael effaith negyddol ar fasnach (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Gall hyn gynnwys, ond nad yw'n gyfyngedig i, bolisiâu sero net newydd. Gallant hefyd effeithio ar allu aelodau i gyflawni nodau newid hinsawdd a chynaliadwyedd oherwydd newidiadau i ganllawiau ac arferion caffael, prosesau cludo a phecynnu, a safonau amgylcheddol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Mae effeithiau yn debygol o gael eu teimlo'n wahanol gan wahanol unigolion a chymunedau, gan ei gwneud yn bosibl i gytundebau masnach newydd atgyfnerthu iechyd ac anghydraddoldebau presennol yng Nghymru neu eu gwaethygu (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b).

**Mae angen nodi a chofnodi effeithiau posibl y CPTPP ar iechyd, llesiant a thegwch er mwyn i lunwyr polisi yn y DU a Chymru gael dealltwriaeth gyflawn o oblygiadau posibl y DU yn ymuno â'r CPTPP ac, ar ben hynny, os ydynt yn mynd i weithredu ar y cyfleoedd a'r heriau y gallai eu cyflwyno (McNamara et al., 2023).**

Ffigur 1. Cysylltiadau rhwng masnach ac iechyd (addaswyd o adroddiad Sefydliad Iechyd y Byd) (Smith et al., 2015; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b)



## Y CPTPP

Mae'r CPTPP yn wahanol mewn sawl ffordd i'r cytundebau masnach 'treigl' ar ffurf yr UE y mae'r DU wedi'u llofnodi'n bennaf ers Brexit, sy'n golygu bod y telerau blaenorol a oedd yn bodoli gyda gwledydd o dan gytundeb ambarél blaenorol yr UE yn cael eu dwyn drosodd (Llywodraeth y DU, 2022). Yn fwyaf nodedig yn y CPTPP mae cynnwys Setliad Anghydfodau Buddsoddwr Wladwriaeth (ISDS), y mecanwaith sy'n caniatáu i fusnesau neu fuddsoddwyr herio polisi newydd y llywodraeth yn gyfreithiol. Mae gan hyn y potensial i atal, arafu neu rwystro cynnydd ar bolisi iechyd y cyhoedd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b).

Yn ogystal â'r DU, mae sawl gwlad arall wedi dangos eu diddordeb mewn ymuno â'r CPTPP – er enghraifft, Tsieina. Ni all y DU ddylanwadu a yw gwlad yn ymuno â'r CPTPP nes iddi ddod yn aelod ei hun, a hyd yn oed wedyn, ni fyddai'n gallu rhoi fetu ar aelodaeth gwlad arall. Gall pa wledydd sy'n rhan o'r CPTPP siapio'n sylweddol effaith bosibl ymuno â'r cytundeb ar iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai'r Unol Daleithiau (UD) edrych ar ymuno yn y dyfodol. Chwaraeodd yr UD ran ganolog yn y gwaith o negodi telerau rhagflaenydd y CPTPP, y cytundeb Partneriaeth Traws Môr-Tawel (TPP), ac er iddi dynnu'n ôl yn ddiweddarach, mae'r CPTPP yn cynnwys llawer o'r un darpariaethau a wnaeth gytundeb posibl â'r UD mor ddadleuol (McNamara, 2021a). Mae effeithiau iechyd posibl cytundeb masnach gyda'r UD wedi'u codi'n flaenorol o ran y posibilrwydd o gam yn ôl ar safonau hylendid bwyd a chynnyrch, er enghraifft, a ddyfynnir ac a amlinellir yn aml yn Amcanion Masnach yr UD (McNamara, 2021a; McNamara, 2021b; McNamara et al., 2021a; McNamara et al., 2021b; Congressional Research Service, 2016).

Mae ymuno â'r CPTPP yn gofyn am gydymffurfio â'i reolau a darpariaethau presennol (CPTPP, 2016). Felly, rhaid i'r DU ddangos bod ei chyfreithiau a'i rheoliadau domestig yn cydymffurfio â rhwymedigaethau CPTPP – os nad ydynt, bydd yn rhaid i'r DU nodi'r newidiadau cyfreithiol angenrheidiol i'w gwneud er mwyn cydymffurfio (Morita-Jaeger, 2021). Gyda gwledydd eraill hefyd yn edrych i ymaelodi â'r bloc masnach, mae'n debygol y bydd aelodau presennol y CPTPP

yn ymwybodol o beidio â gosod cynsail gyda'r DU o wyro gormod oddi wrth y darpariaethau presennol (Morita-Jaeger, 2021). Mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn deall ac yn cyd-fynd â hyn, gyda'r Ysgrifennydd Busnes a Masnach, Kemi Badenoch, yn datgan bod y DU wedi dangos cydymffurfiaeth â safonau'r CPTPP "ar draws pob pennod o'r cytundeb" (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2023). Yn ogystal, mae Canada a Mecsico wedi gwthio i'r DU ddarparu'r un lefel o fynediad i'r farchnad i'w sector amaethyddol ag a gynigiodd yn ei bargeinion â chyd-aelodau'r CPTPP, Awstralia a Seland Newydd (Politico, 2023c). Mae pryderon ynghylch y niwed posibl y mae'r cytundebau hyn yn ei achosi i'r sector amaethyddol yng Nghymru, yn enwedig o'u hystyried gyda'i gilydd ochr yn ochr â chytundebau eraill â darpariaethau tebyg, wedi'u codi eisoes (Politico, 2022). Gall 'llythyrau atodol' ganiatáu i aelodau CPTPP wyro oddi wrth rwymedigaethau penodol a goresgyn y pryder hwn. Er enghraifft, yn 2018, llofnododd Seland Newydd lythyrau atodol i'w heithrio o ISDS gorfodol gyda phum aelod o'r CPTPP (Herbert Smith Freehills, 2018). Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd y DU yn cael defnyddio'r llwybr hwn, neu os caniateir, a fydd Llywodraeth y DU yn llofnodi llythyrau atodol ag unrhyw un o'r aelodau presennol (Morita-Jaeger, 2021).

Cymhlethir effaith aelodaeth o'r CPTPP ar Gymru gan y ffaith bod negodi cytundebau masnach ryngwladol yn fater a gadwyd yn ôl gan lywodraeth y DU. Byddai angen i lywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ddylanwadu ar flaenoriaethau Llywodraeth y DU pe byddent yn teimlo bod angen llunio'r telerau ymuno er budd eu gwledydd (Llywodraeth Cymru, 2018; Llywodraeth Cymru, 2022b). Gall y cytundeb a negodwyd gan y DU hefyd gael effaith ar feysydd datganoledig eraill, er enghraifft, yr amgylchedd ac iechyd.

Mae masnach ryngwladol yn croestorri â llawer o feysydd polisi o fewn cylch gorchwyl Llywodraeth Cymru - er enghraifft, yr amgylchedd, polisi iechyd y cyhoedd, ac iechyd a gofal cymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Mae hyn yn golygu bod effaith cytundebau masnach rhyngwladol ar ddatblygu polisi ehangach yn hollbwysig i Gymru, yn enwedig ei gallu i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal â deddfwriaeth arall a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2015; Llywodraeth Cymru, 2022c).

**Mae deall effeithiau posibl masnach (a chytundebau fel y CPTPP) ar amgylchedd, cymdeithas, economi a diwylliant Cymru, a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer iechyd a llesiant, yn gam cyntaf hanfodol i randdeiliaid a allai fod eisiau eirioli ar gyfer masnach sy'n cael effaith gadarnhaol, neu y gallai fod angen iddynt gymryd camau i atal neu liniaru niwed posibl (McNamara et al., 2023).**

Gall Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) ddarparu mewnwelediad sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth am effeithiau posibl cytundebau masnach ac ar bwy yn y boblogaeth y gellid effeithio arnynt, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae'n broses systematig a hyblyg, sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid ac sy'n seiliedig ar ystod o dystiolaeth ansoddol a meintiol a gwybodaeth iechyd. **Mae HIA hefyd yn offeryn defnyddiol y gellid ei ymgorffori mewn trafodaethau polisi masnach a datblygu a chraffu ar gytundebau masnach i helpu i wneud y mwyaf o'r buddion posibl a lleihau'r niwed posibl** (Green et al., 2022; Hirono et al., 2015).

Dim ond yr ail HIA yn y byd i gael ei gynnal ar gytundeb masnach rydd yw'r adroddiad hwn. Roedd yr un blaenorol yn archwilio HIA Awstralia 2015 o ragflaenydd y CPTPP - y TPP (Hirono et al., 2015; Hirono et al., 2016a).

## 2. Methodoleg

Mae HIA yng Nghymru yn cael eu cynnal yn seiliedig ar ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o iechyd a llesiant (WHO, 1948), sy'n cwmpasu iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Mae'n defnyddio lens penderfynyddion ehangach iechyd a thegwch. Mae HIAs yn seiliedig ar driongli gwybodaeth iechyd, adolygiadau o lenyddiaeth academiaidd a llwyd gadarn a adolygwyd gan gymheiriaid a gwybodaeth a thystiolaeth rhanddeiliaid (Green et al., 2019). Yng Nghymru, bydd HIA yn dod yn statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus o dan amgylchiadau penodol (sydd eto i'w diffinio) yn 2023/24 o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017).

Gellir eu cyflawni ar unrhyw adeg yn natblygiad polisi, prosiect, cynllun neu gynnig – sef, yn rhagolygol (cyn i gynllun gael ei gwblhau er mwyn helpu i wneud penderfyniadau a dylanwadu ar y cynnwys terfynol); ar yr un pryd (i gefnogi gweithrediad cynllun neu gynnig a dylanwadu a llywio sut y caiff ei ddeddfu neu ei liniaru); neu yn ôl-weithredol (i gasglu unrhyw effeithiau i lywio a dylanwadu ar unrhyw gynigion tebyg yn y dyfodol neu fel rhan o broses werthuso neu graffu). Mae gan bob un ohonynt fanteision ac anfanteision (Chang et al, 2022) er enghraifft, diffyg gwybodaeth neu fanylion polisi neu gynllun ar gyfer cynnal HIA yn gynnar yn y broses.






Mae'r HIA hwn o'r CPTPP yn seiliedig ar:

- Llenyddiaeth academiaidd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid
- Llenyddiaeth lwyd gan gynnwys dogfennau polisi ac adroddiadau
- Tystiolaeth a gasglwyd o gyfweiliadau a gweithdai rhanddeiliaid
- Proffil iechyd Cymunedol gan gynnwys gwybodaeth iechyd a data demograffig.

Ceir disgrifiad manwl o fethodoleg HIA CPTPP yn Atodiad 1.

Mae'r dystiolaeth wedi'i syntheseiddio, ei dadansoddi a'i defnyddio i nodi a dosbarthu natur yr effaith fel y'i crynhoir yn Ffigur 2. Fe'i pwysolwyd hefyd fel bod tystiolaeth fwy cadarn ac wedi'i hadolygu gan gymheiriaid yn sail i'r asesiad ac wedi'i throshaenu â'r dystiolaeth ansoddol. Cydnabyddir hefyd ei bod yn bosibl na fydd rhywfaint o ddatdrosoddiaid a thystiolaeth gan y llywodraeth ar gael yn agored a allai newid nodweddiad yr effaith.

Ffigur 2: Disgrifwyr effaith

	<b>Cadarnhaol</b> - Effeithiau â'r potensial i wella neu gynnal statws iechyd neu'n cynnig cyfle i wneud hynny
	<b>Negyddol</b> - Effeithiau â'r potensial i leihau statws iechyd
	<b>Byr</b> – Gwelir effeithiau mewn 0 – 1 flwyddyn
	<b>Canolig</b> – Gwelir effeithiau mewn 1 – 5 mlynedd
	<b>Hirdymor</b> – Gwelir effeithiau mewn >5 mlynedd



## 3. Dadansoddiad

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar iechyd, llesiant a thegwch a nodwyd fel rhan o'r HIA ochr yn ochr ag unrhyw gyfleoedd posibl. Mae pob effaith yn bosibl ac nid yn wirioneddol gan nad oedd y trafodaethau CPTPP wedi'u cwblhau ar yr adeg y cynhaliwyd yr HIA. Ers ymuno ym mis Mawrth 2023, adolygwyd ac ymgorfforwyd y wybodaeth o ddiwedd y cytundeb negodi mewn perthynas â'r DU a Chymru (Yr Adran Busnes a Masnach, 2023). Yn ogystal, nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch sut y bydd telerau'r cytundeb yn cael eu gweithredu a sut y byddant yn amlygu ar draws y boblogaeth, iechyd a'r economi. Cydnabyddir efallai na fydd tystiolaeth arall ar gael yn gyhoeddus a allai newid y tebygolrwydd neu gryfder yr effaith a nodir yn y dadansoddiad hwn a hefyd y bydd tystiolaeth a gwybodaeth bellach yn dod i'r amlwg wrth lofnodi'r cytundeb CPTPP, pan fydd y telerau terfynol yn cael eu cyhoeddi, a'r cytundeb yn cael ei roi ar waith.

### 3.1 Penderfynyddion Iechyd a Llesiant a'r Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt

#### 3.1.1 Ymddygiadau sy'n Effeithio ar Iechyd



**Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, ond mwy o effeithiau negyddol posibl; tymor byr a chanolig**

Casglodd yr HIA dystiolaeth ynghylch effaith bosibl y CPTPP ar ymddygiadau iechyd cadarnhaol - er enghraifft, diet iach a maeth ac ymddygiadau iechyd negyddol, megis yfed tybaco a/neu gamddefnyddio alcohol. Pwysleisiodd nifer o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yr effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig ag ymddygiad iach (Cyfweliadau 2, 3, 4, 7, 8). Yn gyffredinol, gallai unrhyw newidiadau gael effaith bosibl ar nifer yr achosion o glefydau anhrosglwyddadwy sy'n gysylltiedig â diet gwael yn ogystal â defnyddio tybaco ac alcohol a'r gallu i'w hatal, sy'n cael effaith negyddol ar salwch a chanlyniadau iechyd fel gordewdra, canser a chlefyd cardiofasgwlaidd. Mae hyn yn rhannol oherwydd 'Amharodrwydd Rheoleiddiol'.

Gallai llawer o effeithiau posibl y CPTPP ddeillio o newidiadau mewn safonau rheoleiddio - er enghraifft, rhwystrau technegol i fasnach, disodli'r egwyddor ragofalus gyda chyfiawnhad gwyddonol (sy'n dibynnu ar wyddoniaeth gofnodedig) a darpariaethau buddsoddi fel ISDS. Yn gadarnhaol, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod gan ymuno â'r CPTPP y potensial i arwain at ostwng tariffau ar amrywiaeth ehangach o gynhyrchion bwyd o aelod-wladwriaethau eraill, a fyddai'n eu gwneud yn rhatach ac yn fwy hygyrch yng Nghymru (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Schram et al., 2018). Yn ogystal, mae gan y CPTPP y potensial i helpu'r DU i reoli prinder tymhorol o gynnyrch a chynnyrch anifeiliaid (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Gallai hyn helpu i liniaru rhai o effeithiau negyddol yr argyfwng costau byw (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022b). Mae astudiaethau wedi canfod y gall amrywiaeth o fwydydd mewn diet helpu poblogaethau i ddiwallu anghenion maethol a gallant hybu iechyd da, yn enwedig os oes amrywiaeth o fwydydd sy'n cynnwys llawer o faetholion (Steyn et al., 2005; Vadiveloo et al., 2015). Fodd bynnag, nid yw'r llenyddiaeth yn nodi a fydd yr amrywiaeth o fwydydd sy'n deillio o'r CPTPP yn cynnwys mwy o opsiynau bwyd iach.

Yn negyddol, mae gan fwy o gystadleuaeth yn y farchnad y potensial i achosi cynhyrchion rhatach ond llai iach a fewnforir i gymryd lle nwyddau iach domestig am bris uwch (Schram et al., 2018). Gallai hyn

o bosibl newid dewisiadau bwyd ac effeithio ar iechyd sy'n gysylltiedig â diet trwy greu gorgyflenwad o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth sy'n llawn calorïau ac yn brin o faetholion (Friel et al., 2013).

Mae gan ddarpariaethau yn y CPTPP y potensial i ryddfrydoli rheoliadau marchnata a hysbysebu. Mae hyn yn golygu y gallai cwmnïau bwyd fod â gallu cynyddol i farchnata bwydydd neu gynhyrchion nad ydynt yn iach, yn enwedig i blant ac oedolion ifanc oherwydd rhyddfrydoli. Dangoswyd bod hyn yn cyfrannu at dwf marchnadoedd bwyd nad yw'n iach trwy ganiatáu i gwmnïau ennyn ffafriaeth defnyddwyr ar gyfer cynhyrchion tramor (gall hyn fod yn wir ar gyfer hysbysebu tybaco ac alcohol hefyd, fel y trafodir isod) (Schram et al., 2018; McNamara et al., 2021b). Gallai hyn gael effaith negyddol bosibl ar iechyd gan fod polisïau ynghylch labelu maeth ar flaen pecynnau wedi'u cysylltu â dewisiadau bwyd iachach (Campos et al., 2011; Hersey et al., 2013; Volkova a Mhurchu, 2015).



Ymhellach, mae'r CPTPP yn ceisio cyfyngu ar 'rwystrau technegol i fasnach' (TBTs) - rheoliadau a ddefnyddir gan wledydd i amddiffyn diogelwch, iechyd neu'r amgylchedd. Maent yn arbennig o berthnasol i fasnach mewn alcohol, tybaco a bwydydd nad ydynt yn iach lechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Mae gan gyfyngiadau ar TBTs y potensial i symud llunwyr polisi oddi wrth yr egwyddor ragofalus, sy'n gwahardd cynhyrchion ac arferion sydd â risg ansicr o niweidio'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd, i ddull gweithredu sy'n dibynnu ar wyddoniaeth wrthrychol, gofnodedig (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; BMA, 2018; AHDB, 2021; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b; Labonte et al., 2016; Labonte et al., 2018). Gallai hyn o bosibl gyfyngu ar y gallu i reoleiddio labelu maeth ar gyfer bwyd wedi'i brosesu (Schram et al., 2018; Monasterio a Gleeson, 2014; Thow et al., 2015; Friel et al., 2013) ac Isafbris Uned<sup>1</sup> (BMA, 2018).

Un o'r prif bryderon mewn perthynas ag ymddygiad iach a masnach yw cynnwys darpariaethau ISDS yn y CPTPP. Mae ISDS wedi'i amlygu fel rhwystr mawr i weithredu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n annog ymddygiad iach, gan y gall llywodraethau ofni cael eu herlyn am atal masnach a'r costau cysylltiedig o ymladd heriau ISDS (Thow et al., 2015). Gallai'r mecanwaith ISDS o bosibl atal mesurau blaengar a fwriedir i wella iechyd y cyhoedd, megis labelu maeth bwyd a diodydd, a pholisïau alcohol (BMA, 2018; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Mynegodd sawl un o'r cyfweleion bryderon hefyd am yr effaith bosibl y bydd darpariaethau ISDS yn ei chael ar bolisïau iechyd y cyhoedd sy'n ceisio hybu ymddygiad iach (Cyfweliadau 2, 8). 'Mae hyd yn oed y bygythiad o her ISDS yn annog gwledydd i beidio â phasio neu weithredu deddfau cryf i amddiffyn iechyd eu dinasyddion' oherwydd y costau uchel sydd eu hangen i amddiffyn rhag heriau (Campaign for Tobacco Free Kids, dim dyddiad). Mae gan hyn y potensial i arwain at gadw'r status quo ac fe'i gelwir yn 'amharodrwydd rheoleiddiol' (Shekhar, 2016). Roedd y gost gyfartalog i'r ymatebydd – yn yr achos hwn, llywodraethau'r aelod-wladwriaethau – yng nghyflafareddu'r Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Setlo Anghydfodau Buddsoddi (ICSID) dros gyfnod o bum mlynedd ychydig yn llai na \$5 miliwn yr achos (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022; Thow et al., 2015).<sup>2</sup>

Mae arbenigwyr iechyd y cyhoedd a masnach wedi canmol yr ymdrechion cryf i reoli tybaco sydd wedi'u cynnwys yn y CPTPP (American Cancer Society, 2018a; American Cancer Society, 2018b; Hirono et al., 2016b). Mae defnyddio tybaco yn cyfrannu at ystod eang o effeithiau iechyd; er enghraifft,

1 Rhoddwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ar waith ym mis Mawrth 2020 ac mae'n datgan ei bod yn anghyfreithlon i unrhyw fanwerthwr sy'n gwerthu neu'n cyflenwi, neu'n awdurdodi gwerthu neu gyflenwi, alcohol am lai na'r isafbris. Yr isafbris uned (MUP) ar hyn o bryd yw 50c yr uned (Llywodraeth Cymru, 2020).

2 Canfu adolygiad yn 2013 o 196 o honiadau ISDS fod 40 yn ymwneud â diogelu iechyd neu amgylcheddol, gan gynnwys mesurau yn ymwneud â diogelwch bwyd, cynnyrch fferyllol a mesurau rheoli tybaco. Mae gan y rhan fwyaf o'r anghydfodau amgylcheddol, ynghylch dŵr, defnydd tir, rheoli llygredd a gwastraff peryglus, oblygiadau iechyd anuniongyrchol pwysig (Labonte et al., 2016).

mae'n gysylltiedig â chanserau a chlefydau'r galon ac anadlol. Mae tybaco hefyd yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at farwolaethau o glefydau heintus (Sefydliad Iechyd y Byd, 2016). Mae mesurau rheoli tybaco wedi'u heithrio o heriau ISDS (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; American Cancer Society, 2018a; Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Thow a Gleeson, 2017; McNamara et al., 2021a; McNamara et al., 2021b; Labonte et al., 2016). Mae gan hyn y potensial i 'leihau'r baich tybaco - baich sy'n lladd mwy na 389,000 o unigolion yn y gwledydd sy'n cymryd rhan yn y CPTPP bob blwyddyn ac sydd wedi achosi marwolaeth o 100 miliwn ledled y byd yn yr 20fed canrif' (American Cancer Society, 2018b).

Fodd bynnag, mae pryder o hyd ynghylch effeithiau negyddol posibl mwy o hysbysebu a marchnata tybaco (Schram et al., 2018; Hirono et al., 2016b). Yn benodol, mae llunwyr polisi yn aelod-wladwriaethau CPTPP yn dal i fod mewn perygl o gael eu herio gan weithgynhyrchwyr tybaco ynghylch cyfreithiau sy'n ymwneud â labelu a pheycynnu cynhyrchion tybaco (Fooks a Gilmore, 2013). Nid yw'r gwaharddiad ISDS yn cwmpasu holl reoliadau iechyd y cyhoedd, ac nid yw'n atal cwmnïau rhag defnyddio cytundebau masnach eraill i herio deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ysmegu neu alcohol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Thow a Gleeson, 2017; Labonte et al., 2016). Yn ogystal, mae'r amddiffyniad ISDS yn berthnasol i 'gynhyrchion tybaco wedi'u gweithgynhyrchu' yn unig, sy'n golygu nad yw dail tybaco wedi'i heithrio a'i bod yn cael ei thrin fel cynhyrchion amaethyddol eraill (Hirono et al., 2016b). Nid yw'n glir sut y bydd hyn yn effeithio ar reoleiddio e-sigaréts, o ystyried nad yw pob un o'r cynhyrchion hyn yn cynnwys nicotin (Hirono et al., 2016b). Ysmegu yw prif achos marwolaethau y gellir eu hatal yng Nghymru, gyda thua 5,600 o farwolaethau ymhlith pobl 35 oed a hyn i'w priodoli i ysmegu yn 2018 (Llywodraeth Cymru, 2022a). Felly, gallai heriau i allu Llywodraeth Cymru i reoleiddio yn y maes hwn gael effeithiau sylweddol ar ganlyniadau iechyd.

Nid yw alcohol wedi'i eithrio o ISDS (Hirono et al., 2016b). Mae yfed alcohol yn rheolaidd â goblygiadau iechyd y cyhoedd difrifol, gan gynnwys o ran pwysedd gwaed uchel, canser a chlefyd y galon (Center for Disease Control and Prevention, 2022). Mae marwolaethau alcohol-benodol wedi cyrraedd lefelau pryderus yng Nghymru. Yn 2021, cododd cyfraddau marwolaethau alcohol-benodol yng Nghymru o gymharu â 2020; roedd 15 o farwolaethau alcohol-benodol fesul 100,000 o bobl yng Nghymru (ONS, 2022). O'u cymharu â 2019 – y flwyddyn gyn-bandemig ddiwethaf – cynyddodd cyfraddau marwolaethau alcohol-benodol 27.1% yng Nghymru a 27.5% yn Lloegr (ONS, 2022). Yn debyg i fesurau rheoli tybaco, efallai y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn amharod i ddatblygu polisiâu prasio a labelu alcohol oherwydd y mecanwaith ISDS (BMA, 2018; Thow a Gleeson, 2017). Yn ogystal, gallai rheolau yn y CPTPP sy'n targedu alcohol yn benodol gyfyngu ar opsiynau'r llywodraeth i reoleiddio. Gall atodiad yn y CPTPP ar win a gwirodydd ei gwneud yn anodd i lywodraethau fynnu rhybudd iechyd ar labeli alcohol (Monasterio a Gleeson, 2014). Er enghraifft, mae papur cefndir diweddar gan Safonau Bwyd Awstralia Seland Newydd ar gyfer labeli rhybudd beichiogrwydd gorfodol newydd ar alcohol yn dangos bod y penderfyniad i beidio â gorfodi labeli blaen pecynnau wedi'i lunio gan bryderon '*y gallai fynd yn groes i gytundebau masnach rydd*' (McNamara et al., 2021a). Dyma enghraifft arall o'r amharodrwydd rheoleiddiol posibl a allai ddeillio o fecanwaith ISDS.



Mae potensial hefyd am fwy o gyflenwad a defnydd o gynhyrchion nad ydynt yn iach neu anghyfreithlon yn y dyfodol gan y byddai'r cynnydd canrannol amcangyfrifedig mwyaf mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) (mesur o dwf) yn y DU i'w weld mewn diodydd a thybaco pan fydd y DU yn ymuno â'r CPTPP (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021a). Mae cost is nwyddau a fewnforir ar ôl gostyngiadau tariff yn gysylltiedig â mwy o gyfeintiau ac amrywiaeth o gynhyrchion a fewnforir, sy'n aml yn cynnwys cynhyrchion niweidiol fel tybaco, alcohol a bwyd wedi'i brosesu'n helaeth (Schram et al., 2018).

Er bod FTAs fel y CPTPP yn creu gofynion cyfreithiol i lywodraethau gynnwys corfforaethau yn y gwaith o ddatblygu rheoliadau newydd ('cydlynid rheoleiddiol'), nid yw'n gweithredu gofynion tebyg ar gyfer ymgysylltu ag arbenigwyr iechyd y cyhoedd neu ofal iechyd (Thow et al., 2015; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Er enghraifft, mae'n bosibl y caniateir i gwmni tybaco roi mewnbwn ar ddatblygu labeli tybaco newydd neu reoliadau prisio alcohol, ond efallai na fydd corff iechyd y cyhoedd yn gwneud hynny, ac felly maent yn colli cyfle i gael mewnbwn iechyd y cyhoedd arbenigol (McNamara et al., 2021b; Hirono et al., 2016b; Labonte et al., 2016; Monasterio a Gleeson, 2014; Fooks a Gilmore, 2013).

## Poblogaethau yr Effeithir Arnynt

**Mae pobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol** â'r potensial i gael eu heffeithio. Mae argaeledd cynhyrchion nad ydynt yn iach, rhatach, fel bwydydd braster uchel neu siwgr uchel, yn cyfrannu at fuddsoddiad cartrefi mewn iechyd, neu allu pobl i fabwysiadu ymddygiad iach (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Cyfweiliad 4). Mae ymuno â'r CPTPP yn golygu bod gan fwyd nad yw'n iach y potensial i ddod yn rhatach ac yn fwy ar gael, a gall poblogaethau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn fwy tebygol o'i brynu, gan waethygu eu canlyniadau iechyd. Mae'r duedd hon yn debygol o gael ei gwaethygu gan yr argyfwng costau byw (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022b). Gall cael llai o arian i'w wario wneud dewisiadau iachach yn fwy anodd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021). Mae tystiolaeth yn amlygu bod gan y grwpiau hyn hefyd risgiau neu achosion uwch o Glefydau Anhrosoglwyddadwy (NCDs), ysmegu a gordewdra (McNamara, 2021b).

Rhwng 2019 a 2020, roedd cyfran yr holl gleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol a oedd yn byw yn yr ardaloedd gwaethaf eu byd yng Nghymru 2.7 gwaith yn uwch na'r rhai o'r ardaloedd gorau eu byd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020a). Roedd cyfradd marwolaethau a briodolir i ysmegu tua 3.5 gwaith yn uwch ymhlith menywod yn y pumed tlotaf nag yn y pumed cyfoethocaf; roedd 2.5 gwaith yn uwch ar gyfer dynion (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020b). Yn olaf, mae nifer yr oedolion sydd dros bwysau ac yn ordew yn cynyddu gydag amddifadedd; mae gwahaniaeth o 12% yn nifer yr achosion rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019a).

**Gallai rhai sectorau** fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol o bosibl o ganlyniad i'r CPTPP – er enghraifft, **y sectorau amaethyddol, gweithgynhyrchu neu fodurol** (gweler adran 3.1.5) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Gall hyn greu ansicrwydd economaidd a cholli swyddi posibl. Mae rhai o'r sectorau hyn wedi'u crynhoi mewn cymunedau difreintiedig, sy'n golygu y gallent fod yn fwy tebygol o brofi straen a phryder oherwydd colli swyddi, amodau gwaith gwael, ac anallu i fforddio hanfodion, fel bwyd iach

Mae'r effeithiau posibl ar ymddygiadau iechyd hefyd yn debygol o **effeithio'n anghymesur ar boblogaethau penodol gan gynnwys y rhai sydd â iechyd a llesiant meddwl gwael a'r rhai â salwch cronig neu hirdymor neu faterion sy'n ymwneud ag ymddygiadau iechyd** (Monasterio a Gleeson, 2014; McNamara, 2021b). Mae gan y canlyniadau iechyd a llesiant meddwl hyn y potensial i gynyddu faint o fwydydd nad ydynt yn iach a chynhyrchion anghyfreithlon sy'n cael eu defnyddio, fel alcohol a thybaco, a fydd yn cael effeithiau negyddol ar ganlyniadau iechyd.



### 3.1.2 Diogelwch bwyd a lles anifeiliaid



Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, ond mwy o effeithiau negyddol posibl; tymor canolig a hir

Ychydig o effeithiau cadarnhaol posibl yn ymwneud â chynnal neu hyrwyddo safonau diogelwch bwyd a lles anifeiliaid a nodwyd yn y llenyddiaeth lwyd ac academiaidd. Pwysleisiodd dau sefydliad y gallu i 'Frando Prydain' - sy'n golygu y gall cynhyrchwyr bwyd y DU o bosibl ddangos cadwyni cyflenwi bwyd diogel, olrheiniadwy ac archwiledig ac ennill cyfrannau o'r farchnad (Centre for Policy Studies, 2022; Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, 2021). Gallai hyn fod o fudd i weithwyr amaethyddol a ffermwyr a fyddai'n wynebu cystadleuaeth ychwanegol â chynhyrchwyr bwyd yn aelod-wladwriaethau presennol CPTPP.

Fodd bynnag, efallai y bydd sector amaethyddol y DU yn cael ei effeithio'n negyddol gan fewnforion rhatach sydd wedi'u cynhyrchu i safonau lles anifeiliaid, costau a safonau cynhyrchu is nag sydd gan y DU ar hyn o bryd. Gallai gael ei effeithio gan bwysau cystadleuol cynyddol, a allai gynyddu costau (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, 2021a; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b; Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, 2021). Ar hyn o bryd, mae gan y DU safonau uchel ar gyfer bwyd a lles anifeiliaid (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; BMA, 2018; Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, 2021b). Mae safonau lles anifeiliaid a safonau cynhyrchu bwyd mewn rhai aelod-wledydd CPTPP yn is na rhai'r DU, ac nid yw'r CPTPP yn cynnwys darpariaethau trothwy ar les anifeiliaid (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, 2021).

Yn ogystal, mae llawer o'r llenyddiaeth yn awgrymu y gallai derbyn y CPTPP arwain at ostyngiad mewn safonau diogelwch bwyd a lles anifeiliaid gan fod llywodraeth y DU wedi cefnogi darpariaethau cyd-gydnabod mewn cytundebau masnach blaenorol – er enghraifft, mesurau glanweithiol a ffytoiechydol (SPS), sy'n diogelu diogelwch bwyd (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Sefydliad y Cyfarwyddwyr, 2022). Mae'r llenyddiaeth lwyd yn nodi y gall y gofynion ar gyfer cydweithredu rheoleiddiol ymhlith aelod-wladwriaethau CPTPP gael effaith ddadroleiddiol o bosibl wrth i safonau gydygyfeirio i'r enwadur cyffredin isaf - mae gwledydd â safonau uwch yn cael eu cymell i ostwng eu safonau i leihau costau i gynhyrchwyr a chynyddu eu gallu i gystadlu gyda mewnforion o aelod-wladwriaethau eraill (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Greener UK, 2021; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b). Nodir hefyd y gallai fod yn llawer anoddach codi safonau domestig yn y DU oherwydd gallai agor y DU neu weinyddiaethau datganoledig i heriau cyfreithiol ar safonau diogelwch bwyd (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; BMA, 2018; Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, 2021b; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b).



Yn debyg i'r effeithiau negyddol posibl ar bolisiau sy'n hybu ymddygiad iach (Gweler Adran 3.1.1), gallai'r symudiad posibl oddi wrth yr egwyddor ragofalus, sy'n gwahardd cynhyrchion ac arferion sydd â risg ansicr o niweidio'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd, i wyddoniaeth wrthrychol, gofnodedig o bosibl gael effaith negyddol ar y gallu i ddeddfu a gweithredu polisiau sy'n gwella safonau diogelwch bwyd a lles anifeiliaid (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; BMA, 2018; AHDB, 2021; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b; Labonte et al., 2016; Labonte et al., 2018). O ganlyniad, efallai y bydd y DU yn ei chael hi'n anodd gweithredu rheoliadau



iechyd y cyhoedd newydd sy'n ymwneud â SPS neu gyfiawnhau mesurau sy'n ymwneud â chyfyngu ar gynhyrchion nad yw diogelwch yn glir ar eu cyfer, gan fodloni'r dull rhagofalus (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; McNamara et al., 2021a). Er enghraifft, mae gan hyn y potensial i'w gwneud yn anoddach i'r DU gyfyngu ar fynediad i gynhyrchion, megis y rhai sy'n cynnwys plaladdwyr niweidiol (Greener UK, 2021). Mynegwyd pryderon ynghylch gostyngiad mewn SPS a safonau diogelwch bwyd mewn sawl cyfweliad (Cyfweliadau 3, 4, 5).

Mae nifer o fesurau iechyd y cyhoedd y gallai mesurau SPS y CPTPP effeithio arnynt yn cynnwys cyfyngiadau ar weddillion plaladdwyr mewn bwyd, archwilio cynhyrchion ar gyfer

cyfyngiadau a gwaharddiadau ar anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid o ardaloedd lle mae achosion o glefydau wedi digwydd (McNamara et al., 2021a). Gall gostyngiadau mewn safonau lles anifeiliaid ac argaeledd cig a gynhyrchir gyda mwy o wrthfotigau arwain at gynnydd mewn ymwrthedd gwrth-ficrobaidd (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021). Ymhlith y peryglon iechyd posibl eraill a nodwyd yn y llenyddiaeth lwyd mae mwy o risg o heintiau salmonela mewn pobl (BMA, 2018).



## Poblogaethau yr Effeithir Arnynt

**Gallai gweithwyr amaethyddol, gan gynnwys ffermwyr,** gael eu heffeithio. Mynegodd cyfweleion bryderon ynghylch gallu'r CPTPP i ddiogelu ffermio yn y DU a Chymru a'r goblygiadau ar gyfer safonau a diogelwch bwyd (Cyfweliadau 4, 7). Mae p'un a ydynt yn cael eu heffeithio, ac i ba raddau, yn dibynnu ar ba fynediad a roddir i aelod-wledydd CPTPP i'r farchnad amaethyddol a'r safonau a gymhwysir i'r cynhyrchion hynny. Fodd bynnag, gallai gael effaith negyddol ar ffermwyr os cânt eu gwthio i ostwng eu safonau er mwyn parhau i fod yn gystadleuol. Gallai hyn gael effeithiau ehangach posibl ar yr amgylchedd (gweler adran 3.1.4) ac iechyd y cyhoedd (BMA, 2018; Greener UK, 2021; Soil Association, dim dyddiad). Amlygodd cyfweliadau hefyd, os bydd y pwysau ar ffermwyr yn cynyddu, yna gallai hyn arwain at effeithiau andwyol ar iechyd a llesiant meddwl oherwydd caledi ariannol a busnes cynyddol (gweler Adrannau 3.1.2 a 3.1.5) (Cyfweliad 10). Fodd bynnag, gallai'r darlun hwn newid gydag archwiliad pellach o ddadansoddiad o'r sector hwn yn y dyfodol (Cyfweliad 5).

Yn ogystal, gallai'r **boblogaeth gyffredinol** fod yn agored i ganlyniadau iechyd gwael pe baent yn dod yn fwy tebygol o fwyta cynhyrchion bwyd a gynhyrchwyd ar safon is (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; BMA, 2018).

### 3.1.3 Llesiant meddwl



Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, ond mwy o effeithiau negyddol posibl; tymor canolig a hir



Amlygodd y llenyddiaeth academiaidd a'r llenyddiaeth lwyd sawl effaith bosibl ar lesiant meddwl, a allai ddeillio o dderbyn y DU i'r CPTPP.

Mae yna bosibilrwydd creu swyddi mewn rhai sectorau – er enghraifft, y sector gwasanaethau (gweler Adran 3.1.5) (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, 2021a). Yn ogystal, dadleuir y gallai'r DU barhau i gynnal safonau uchel o hawliau gweithwyr ac y gall y CPTPP bwysleisio diogelu hawliau gweithwyr (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021a; Y Ganolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Fodd bynnag, gallai unrhyw golledion swyddi posibl ac ansicrwydd economaidd gael effaith andwyol ar iechyd a llesiant meddwl (gweler Adran 3.1.5). Mae hyn yn arbennig o wir mewn sectorau sydd â'r potensial i fod mewn perygl uwch o golli

swyddi, megis y sectorau amaethyddol, gweithgynhyrchu a modurol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Gall diweithdra, yn enwedig yn absenoldeb cymorth cymdeithasol fel amnewid incwm, arwain at farwolaethau uwch, iechyd cyffredinol gwaeth, iechyd meddwl gwaeth, a mwy o ymgynghoriadau meddygol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022c).

Mae gan ddarpariaethau'r CPTPP y potensial i ryddfrydoli masnach ddigidol drwy hwyluso llif data trawsffiniol anghyfyngedig ar gyfer trafodion busnes a gwahardd datgelu cod ffynhonnell a gofynion lleoleiddio data (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Felly, gall rhannu a storio gwybodaeth drwy ddulliau digidol ar draws ffiniau ddod yn haws ac yn fwy cyffredin (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; McNamara et al., 2021b). Mae hyn yn cynnwys data personol, sy'n angenrheidiol ar gyfer ymchwil feddygol a chysylltu ar faterion a bygythiadau iechyd (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Fel rhan o'r CPTPP, bydd gan y DU y '*cyfle i symud oddi wrth ffocws llym yr UE ar breifatrwydd data yn anad dim*' (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022: 17). Fodd bynnag, nododd Senedd Ewrop y gallai cais y DU i'r CPTPP o bosibl gynyddu rhannu data â gwledydd heb eu diogelu (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021a). Hyd yn hyn, dim ond Canada, Japan a Seland Newydd y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi'u cydnabod fel rhai sy'n darparu amddiffyniad digonol (Comisiwn Ewropeaidd, dim dyddiad).

Nododd y rhai a gyfwelwyd y gallai preifatrwydd digidol a llacio rheolau preifatrwydd data sy'n cydfynd ag arferion masnach ddigidol o bosibl gael effaith andwyol ar iechyd meddwl ac achosi pryder, yn enwedig os yw gwybodaeth iechyd preifat yn cael ei pheryglu (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, 2021a). Mae tystiolaeth sy'n cysylltu effeithiau iechyd meddwl â phryderon preifatrwydd data yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, gall yr effeithiau ar lesiant meddwl a nodir mewn perthynas â hyn gynnwys teimladau o



erledigaeth ac o fod yn agored i niwed; gorbryder a straen; iselder; anhunedd; anawsterau bwyta a chysgu; a gorbryder cymdeithasol (The Expert Witness, 2019; Identity Theft Resource Centre, 2021). Fel y trafodwyd yn Adran 3.1.1, mae gan y canlyniadau iechyd a llesiant meddwl y potensial i gynyddu faint o fwydydd nad ydynt yn iach a chynhyrchion anghyfreithlon sy'n cael eu defnyddio, fel alcohol a thybaco, a fydd yn cael effeithiau negyddol ar ganlyniadau iechyd. Gallai effeithiau negyddol ddigwydd ar unwaith gyda rhai canlyniadau ariannol neu bersonol uniongyrchol er enghraifft, ond efallai na fydd achosion o dorri rheolau data yn cael eu teimlo am beth amser (Legal Futures, 2019).

## Poblogaethau yr Effeithir Arnynt

Nododd sawl cyfranogwr y gallai colli swyddi ac ansicrwydd swyddi arwain at iechyd a llesiant meddwl gwael a nodwyd yn benodol yr effeithiau negyddol posibl ar gymunedau ffermio (Cyfweiliadau 4, 7, 10, 11). Os yw sectorau a allai fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gollu swyddi oherwydd y CPTPP - er enghraifft, y sectorau amaethyddol, modurol a gweithgynhyrchu - **wedi'u gorgynrychioli gan weithwyr economaidd-gymdeithasol is**, gall hyn o bosibl **ehangu anghydraddoldebau** iechyd ac arwain at iechyd meddwl gwael ymhlith y boblogaeth hon, er enghraifft, y sectorau amaethyddol a modurol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Yn ogystal, mae effeithiau andwyol posibl ansicrwydd economaidd a diweithdra yn waeth ar gyfer poblogaethau economaidd-gymdeithasol is.

Lle mae cyfleoedd gwaith yn cynyddu, efallai y bydd llai o straen economaidd, a allai wella iechyd meddwl ymhlith y rhai sydd mewn **gwaith ansicr a'r rhai sy'n economaidd anweithgar** (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022c). Fodd bynnag, gallai colledion swyddi posibl ac ansicrwydd economaidd gael effaith andwyol ar iechyd a llesiant meddwl (gweler Adran 3.1.5). Gall diweithdra arwain at farwolaethau uwch, iechyd cyffredinol gwaeth, iechyd meddwl gwaeth, a mwy o ymgynghoriadau meddygol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022c).

Yn ogystal, mae poblogaethau gyda **salwch hirdymor a chyflyrau cronig** yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd, sy'n golygu bod eu data iechyd preifat yn cael ei gasglu gan ddarparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn effaith gadarnhaol bosibl ar y boblogaeth hon gan fod pobl â chyflyrau iechyd difrifol yn aml yn fwy cefnogol i rannu data gofal iechyd na'r cyhoedd yn gyffredinol gan eu bod yn gobeithio y bydd yn arwain at driniaeth a gofal gwell (Cancer Research UK, 2016).

### 3.1.4 Ffactorau amgylcheddol



Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, ond mwy o effeithiau negyddol posibl; tymor byr, canolig a hir

Dywedwyd y bydd y DU o bosibl yn cael cyfle i godi safonau amgylcheddol mewn sectorau â lefelau uwch o allyriadau a halogiad os bydd yn ymuno â'r CPTPP gan fod y safonau sydd wedi'u cynnwys yn mynd y tu hwnt i gytundebau dwyochrog presennol, a gallai hyn gael effaith gadarnhaol bosibl ar iechyd a llesiant (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021a; Centre for Policy Studies, 2022). Er enghraifft, mae peth o'r llenyddiaeth lwyd yn amlygu darpariaethau CPTPP ar osôn, llygredd morol a chadwraeth (Centre for Policy Studies, 2022). Mae'r polisi a'r llenyddiaeth lwyd hefyd yn nodi bod gan bennod amgylchedd CPTPP y potensial i hyrwyddo



gorfodi deddfau amgylcheddol domestig yn effeithiol a gallai osod y sylfaen i aelodau osod eu cyfreithiau a'u rheoliadau domestig eu hunain neu gydweithio i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol sy'n ymwneud â masnach (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, 2021; Adran Masnach Ryngwladol, 2021a). Mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fydd safonau amgylcheddol yn cael eu gostwng, ond nid oedd yn cynnwys unrhyw fanylion ar sut y byddai'n sicrhau ei bod yn cadw ei hawl i reoleiddio i gefnogi ymrwymadau lleihau newid hinsawdd a safonau amgylcheddol uchel (Centre for Policy Studies, 2022). Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a). Mae modelu hefyd wedi awgrymu y byddai allyriadau amgylcheddol yn codi 0.025% yn unig erbyn 2035 ac y byddai dwyster allyriadau yn y DU yn gostwng oherwydd newidiadau disgwylidig i gyfansoddiad yr economi gan leihau pwysigrwydd sectorau allyriadau-ddwys (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022; Yr Adran ar gyfer Masnach Ryngwladol, 2021a; Cyfweliad 3). Mae potensial i nwyddau allyriadau uchel beidio â chael eu cynhyrchu'n ddomestig mwyach (e.e., dur), ond yn lle hynny gellir eu mewnfario, gydag effeithiau negyddol posibl ar weithgynhyrchu yn y DU ac yn arwain at osod allyriadau 'oddi ar y môr' (Cyngres yr Undebau Llafur, 2018).

Fodd bynnag, mae peth o'r llenyddiaeth lwyd ac academiaidd yn codi pryderon ynghylch effeithiau negyddol posibl ymuno â'r CPTPP ar amodau amgylcheddol a byw, a all effeithio ar iechyd. Yn debyg i fater safonau diogelwch bwyd, mae un o'r effeithiau negyddol posibl mwyaf a nodwyd yn ymwneud â gostwng safonau amgylcheddol – neu'r anallu i'w gwella – a allai gael effaith ar ansawdd aer a dŵr (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Greener DU, 2021; Maint Cymru dim dyddiad; Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a; Labonte et al., 2018). Nid yn unig nad yw'r CPTPP yn sôn am newid hinsawdd, ond mae'r bennod ar yr amgylchedd yn anghyfrwymol a dim ond un o saith o'r cytundebau amgylcheddol amlochrog (MEAs) yn y CPTPP sy'n orfodadwy (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; McNamara et al., 2021b). Nid yw darpariaethau amgylcheddol ond yn annog cyd-gydnabod safonau, sydd â'r potensial i arwain at 'ras i'r gwaelod' ar gyfer safonau (Greener UK, 2021; Labonte et al., 2018). Dim ond wrth drosglwyddo i economi allyriadau isel y mae gwledydd CPTPP wedi cytuno i gydweithio (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; McNamara et al., 2021b).



Yn ogystal, nododd y llenyddiaeth sawl effaith negyddol bosibl mewn perthynas â'r sector amaethyddol, gan gynnwys cymell arferion amaethyddol sy'n ddwys o nwyon tŷ gwydr er mwyn osgoi cael eu tansilio gan fewnforion rhad sy'n bodloni rheoliadau amgylcheddol llai llym (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a). Mae gan hyn hefyd gysylltiadau clir â'r effeithiau posibl ar ddiogelwch bwyd (gweler adran 3.1.2). At hynny, wrth i lwybrau masnach ehangu a chyfleoedd sydd â chyrhaeddiad byd-eang ehangach, gallai fod mwy o ofnyon pecynnu a chludo. Mae hyn hefyd yn cael effaith bosibl gysylltiedig oherwydd cynnydd mewn teithiau hedfan i gefnogi ehangu masnach, a fyddai'n arwain at gynnydd mewn allyriadau o drafndiaeth ac yn effeithio'n negyddol ar ansawdd aer (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Greener UK, 2021; Maint Cymru, dim dyddiad; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2021; Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, 2021; Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021a; Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a; Cyfweiliadau 4; 11).

Fel sy'n wir am bolisiâu i hybu ymddygiad iach, mae'r llenyddiaeth lwyd ac academiaidd yn nodi y gallai deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol - er enghraifft, parthau allyriadau isel a pholisiâu sero net - gael eu herio drwy fecanwaith ISDS a allai arwain at amharodrwydd rheoleiddiol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Greener UK, 2021; Maint Cymru, dim dyddiad; BMA, 2018; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2021; Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2022; Labonte et al., 2018; Cyfweiliad 3). Mae Rogers et al. (2016b) yn amlygu'n benodol nad yw ymdrechion i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chynaliadwyedd wedi'u heithrio o ISDS. Mae olew, nwy, mwyngloddio, diwydiannau echdynol, a chorfforaethau ynni wedi dod â channoedd o achosion ISDS yn erbyn gwledydd gydag achosion ynni a mwyngloddio yn cynrychioli 42% o achosion hysbys ISDS; mae mwy a mwy o achosion yn herio polisi hinsawdd (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2022). Gallai hyn gael effaith negyddol bosibl ar allu'r DU a Chymru i gyrraedd targedau sy'n ymwneud â'r hinsawdd neu wneud polisi newydd ynghylch terfynau a safonau carbon (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Greener UK, 2021; Maint Cymru, dim dyddiad).

Gellir gweld effeithiau posibl mecanwaith ISDS o ddefnyddio'r Cytuniad Siarter Ynni (ECT) fel 'arf cyfreithiol y mae corfforaethau'n ei ddefnyddio i erlyn llywodraethau sy'n ceisio gorfodi rheoliadau amgylcheddol ac ymateb i ymdrechion cymunedau i warchod eu hamgylcheddau rhag difrod ecolegol' (War on Want, 2021). Mae hyn er gwaethaf amcanion yr ECT mewn perthynas â'r nodau datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, siwiodd y cwmni olew a nwy, Rockhopper Exploration PLC, yr Eidal am iawndal o fwy na \$275 miliwn dros ei phenderfyniad i wahardd drilio am olew a nwy ger yr arfordir (War on Want, 2021). Mae sawl gwlad, gan gynnwys Sbaen, Gwlad Pwyl, yr Iseldiroedd, Ffrainc, Gwlad Belg a Slofenia wedi mynegi eu bwriad i dynnu'n ôl o'r ECT gan ei fod wedi "rhwystro ymdrechion llywodraethau i liniaru hinsawdd yn uchelgeisiol" (International Institute for Sustainable Development, 2022). Tynnodd yr Eidal yn ôl yn 2016 (International Institute for Sustainable Development, 2022).

Yn yr un modd, bu enghreifftiau gyda rheolau a chytundebau masnach eraill lle bu heriau. Er enghraifft, mae rheolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) wedi cael eu defnyddio'n rheolaidd gan aelodau i herio cymorthdaliadau ar gyfer diwydiannau ynni adnewyddadwy (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Mae'r cymorthdaliadau hyn yn dod yn fwyfwy pwysig mewn trafodaethau a negodiadau polisi masnach – er enghraifft, mae llawer o sylw wedi'i roi i'r ddadl rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau ar gredydau





treth defnyddwyr cerbydau trydan, a bydd rheolau masnach Brwsel ar gerbydau trydan yn dod yn llymach yn 2024, gyda rhai ceir a wnaed ym Mhrydain yn wynebu cynnydd o 10 y cant mewn tariffau pan gânt eu hallforio i aelod-wladwriaethau'r UE (Politico, 2023a; Politico, 2023b).

Mae'n bosibl y gallai Rhwystrau Technegol i Fasnachu yn y CPTPP gyfyngu ar allu awdurdodau lleol yng Nghymru i orfodi polisiau domestig sy'n ymwneud â'r amgylchedd, megis sefydlu parthau aer glân lleol i fynd i'r afael â llygredd aer a rhwystro cwmnïau ffracio rhag gweithredu ar dir lle bernir bod hynny berygl iechyd neu amgylcheddol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Mae gan hyn y potensial i symud llunwyr polisi oddi wrth yr egwyddor ragofalus, sy'n gwahardd polisiau ac arferion sydd â risg ansicr o niweidio'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd, i ddull gweithredu sy'n dibynnu ar wyddoniaeth gofnodedig (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; BMA, 2018; AHDB, 2021; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b; Labonte et al., 2016; Labonte et al., 2018). Gallai rheolau'r llywodraeth ar gyfer caffael yn y CPTPP hefyd gyfyngu o bosibl ar y gallu i fandadu gofynion ar gyfer 'prynu gwyrdd' yng nghontractau'r llywodraeth oherwydd eu bod yn creu 'rhwystrau diangen i fasnach' (Greener UK, 2021; Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a). Mae'n bosibl y bydd polisiau caffael cynaliadwy lleol hefyd yn cael eu heffeithio gan ei bod yn bosibl na fydd polisiau sy'n caniatáu i awdurdodau lleol hyrwyddo llesiant amgylcheddol wrth brynu nwyddau neu wasanaethau yn cael eu caniatáu o dan y CPTPP - er enghraifft, polisiau sy'n annog prynu gan gyflenwyr cynaliadwy o ffynonellau lleol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018, McNamara et al, 2021).

Mae newid hinsawdd yn gysylltiedig ag ystod eang o effeithiau ar iechyd a llesiant (Edmonds a Green, i ddod). Felly, gallai darpariaethau CPTPP sy'n atal neu'n cyfyngu ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru rhag gweithredu polisiau addasu hinsawdd sy'n seiliedig ar dystiolaeth neu gynnal safonau amgylcheddol uchel gael effeithiau negyddol posibl, gan gynnwys llai o iechyd a llesiant corfforol a meddyliol; tarfu ar rwydweithiau trafndiaeth; tarfu ar addysg a chwaraeon a chwarae awyr agored; amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; dadleoli o gartref a rhwydweithiau cymorth; ac amharu ar gyflenwad bwyd a chynhyrchiant (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021a; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022a).

## Poblogaethau yr Effeithir Arnynt

Gallai darpariaethau'r CPTPP sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd gael effaith anghymesur ar **grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol a grwpiau mewn perygl sydd â llai o adnoddau neu allu i ymdrin â chanlyniadau newid hinsawdd**, sydd â'r potensial i waethygu anghydraddoldebau iechyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022a). Mae hyn yn cynnwys plant, oedolion hŷn, pobl ar incwm isel a phobl ag anabledau a chyflyrau iechyd hirdymor (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021a; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022a).

Yn ogystal, gallai ehangu marchnadoedd a gofynion pecynnu a/neu gludo ychwanegol arwain at fwy o ddefnydd o blastigau a chostau ar gyfer **gweithwyr amaethyddol a chynhyrchwyr bwyd** (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd hefyd gan y gallai ffermwyr deimlo dan bwysau i ddwysáu eu harferion ffermio i barhau'n gystadleuol â gwledydd eraill sy'n mewnforio cynhyrchion amaethyddol i'r DU am gostau is (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, 2021a; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021b; Undeb yr Amaethwyr, 2021).

### 3.1.5 Ffactorau economaidd



**Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, ond mwy o effeithiau negyddol posibl; tymor canolig a hir**

Mae ystod o effeithiau posibl - yn gadarnhaol ac yn negyddol - mewn perthynas â'r economi a chyflogaeth o'r CPTPP a grwpiau poblogaeth penodol. Mae tystiolaeth ar yr effeithiau economaidd posibl yn gymysg, gyda rhai yn dadlau bod y CPTPP yn rhoi cyfle i gryfhau amodau llafur a thwff economaidd ac eraill yn pryderu bod y CPTPP yn addurniadol yn unig, gan arwain o bosibl at erydiad twf economaidd ac amodau llafur - er y gall effaith iechyd a llesiant hyn fod yn aneglur o hyd, er enghraifft, mae dirywiad economaidd mewn gwledydd datblygedig yn yr 20fed ganrif wedi bod yn gysylltiedig yn aml â gwelliannau mewn disgwyliad oes er gwaethaf rhai categorïau, megis hunanladdiad, yn dirywio (Bezruchka, 2009).

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gallai ymuno â'r CPTPP arwain at ostyngiad mewn tariffau, a gallai masnach y DU gydag aelod-wladwriaethau gynyddu £3.3 biliwn, gan gynnwys £1.7 biliwn ychwanegol mewn allforion oherwydd ehangu'r farchnad (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021a; Centre for Policy Studies, 2022). Mae amcanestyniadau'r Adran Masnach Ryngwladol hefyd yn awgrymu y gallai allforion y DU i aelodau CPTPP gynyddu 65% erbyn 2030, sy'n cyfateb i gynnydd o £37 biliwn, ac y gallai'r galw am fewnforion i'r DU godi dwy ran o dair erbyn 2030 i ychydig o dan £4.5 triliwn (Sefydliad y Cyfarwyddwyr, 2022). Mae'r llenyddiaeth hefyd yn nodi y gallai cadwyni cyflenwi ddod yn fwy amrywiol a chynaliadwy trwy ryddfrydoli gofynion rheolau tarddiad, symleiddio llif data trawsffiniol a thriniaeth fwy rhyddfrydol o reolau fisa (Centre for Policy Studies, 2022). Mae gan y buddion economaidd hyn y potensial i gael effaith gadarnhaol ar fusnesau a'r amgylchedd economaidd yng Nghymru drwy gynyddu potensial refeniw, ehangu marchnadoedd, denu buddsoddiad tramor a chefnogi swyddi i'r boblogaeth (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a). Amlygodd nifer o'r cyfweleion y cyfleoedd posibl ar gyfer twf economaidd a swyddi o'r CPTPP (Cyfweliadau 2, 5, 7, 8, 9).

Fodd bynnag, mae asesiad effaith economaidd Llywodraeth y DU yn rhagweld buddion o ddim ond £1.8 biliwn neu 0.08% o CMC – a dim ond ar ôl 15 mlynedd o aelodaeth y byddai hyn (McNamara et al, 2023; Centre for Policy Studies, 2022; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2021). Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a).

Mae potensial hefyd i greu swyddi mewn rhai sectorau – er enghraifft, y sector gwasanaethau (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, 2021a). Fodd bynnag, gallai o bosibl arwain at effeithio'n negyddol ar sectorau eraill – er enghraifft, y sectorau amaethyddol a modurrol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Yn ogystal, mae potensial ar gyfer colli swyddi mewn rhai sectorau oherwydd cynnydd mewn mewnforion o aelod-wledydd CPTPP (TUC, 2018). Yn ogystal, gallai'r CPTPP arwain at gynnydd mewn symudedd llif cyfalaf trawsffiniol, a all gynyddu cystadleuaeth am fuddsoddiad rhwng gwledydd ac arwain at angen i'r gwledydd hynny ddod o hyd i ffyrdd newydd o gynyddu enillion ar fuddsoddiadau. Cytunodd sawl un o'r cyfweleion y gallai'r effeithiau negyddol posibl hyn arwain at golli swyddi, pwysau ar i lawr ar gyflogau, safonau llafur a threthi (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Cyfweliadau 6, 10, 11).



Ar gyfer Cymru, gallai hyn fod yn arwyddocaol gan mai'r wlad sydd â'r gyfran isaf o allforion ar gyfer gwledydd CPTPP (6.2%) o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Mynegodd Cyngres yr Undebau Llafur (2018) bryderon y gallai'r CPTPP arwain at ddiweithdra mewn rhai sectorau - er enghraifft, y sector gweithgynhyrchu - oherwydd mwy o fewnforion ar gyfer y sectorau hyn o wledydd CPTPP. Gallai hyn o bosibl arwain at weithwyr sydd wedi colli swyddi i ymgymryd â chyflogaeth newydd ar delerau ansicr gyda chyflog isel yn y sector anffurfiol, megis swyddi di-dâl, dros dro neu achlysurol (Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Mae sawl cyfwelai hefyd yn mynegi pryderon ynghylch colledion economaidd posibl (Cyfweiliadau 3, 4, 10). Mae bygythiad posibl o ddiweithdra torfol os bydd cyflogwyr mawr yn gadael y DU neu Gymru, a allai effeithio'n negyddol ar lesiant economaidd a/neu iechyd cymunedau a rhanbarthau cyfan (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2017).

Mae effeithiau negyddol posibl eraill yn cynnwys mater y CPTPP yn gosod cyfyngiadau ar gaffael a pholisïau'r llywodraeth, er enghraifft Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022e), sy'n golygu efallai na chaniateir i lywodraethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ddefnyddio eu polisïau caffael i annog datblygiad diwydiannau a swyddi lleol neu i gefnogi twf diwydiannau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd neu ddatblygiad (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Ar hyn o bryd mae dadl dros y mater olaf hwn o fewn sgysiaid masnach yr UE a'r UD (fel y trafodwyd yn Adran 3.1.4)

Yn gadarnhaol, gall y DU barhau i gynnal safonau uchel o hawliau gweithwyr, gan osod esiampl glir a pharhau i fod yn arweinydd byd (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Dadleuir bod y CPTPP yn pwysleisio diogelu hawliau gweithwyr (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021a; Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Mae ffermwyr a thyfwyr y DU hefyd yn falch o'u safonau uchel o ran llesiant gweithwyr (NFU, 2021). Mae Zebedee (2021) yn honni y gallai darpariaethau sy'n ymwneud â safonau llafur hefyd gryfhau cyflogau gweithwyr gan fod rheolau cryf ynghylch isafswm cyflog a chydabod undebau llafur; felly, dadleuir efallai na fydd yn newid safbwynt presennol y DU ar hawliau gweithwyr. Dadleuir hefyd fod y CPTPP yn annog gwledydd i weithredu confensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) gyda darpariaethau megis isafswm cyflog, safonau iechyd a diogelwch a deddfwriaeth oriau gwaith (Yr Adran Masnach Ryngwladol, 2021a; Y Ganolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Mae gan Gymru ymrwymiad cryf i gyflogau yn y sector Amaethyddol (Llywodraeth Cymru, 2023a; Llywodraeth Cymru, 2023b).

Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth hefyd yn mynegi pryder y gallai'r CPTPP o bosibl erydu hawliau gweithwyr mewn lleoliadau y tu allan i'r DU neu dandorri gweithwyr Prydeinig trwy gael costau llafur rhatach (Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Er bod y bennod ar lafur yn annog gwledydd i weithredu confensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) a deddfwriaeth isafswm cyflog, iechyd a diogelwch ac oriau gwaith, mae'n anghyfrwymol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Mae derbynioldeb amodau gwaith yn cael ei bennu gan bob gwlad, sy'n golygu nad oes trothwy llawr na ddylai rheoliadau ddisgyn oddi tano (McNamara et al., 2021b). Dim ond pan effeithir ar fasnach y gall aelodau gyflwyno hawliadau sy'n cyfeirio at safonau llafur; nid yw deddfwriaeth yn cael ei mesur yn erbyn ei heffaith ar lafur neu hawliau dynol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2021; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018; Canolfan Adnoddau Busnes a Hawliau Dynol, 2022). Yn ogystal, nid oes unrhyw ddarpariaeth i weithwyr ddwyn hawliad i orfodi confensiynau ILO neu safonau llafur eraill, dim ond gwladwriaethau, sy'n rhoi llai o hawliau iddynt na buddsoddwyr (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Felly, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gallai'r darpariaethau sy'n ymwneud â safonau a hawliau llafur fod yn llai tebygol o gynyddu hawliau gweithwyr, eu diogelu neu wella cysylltiadau cyflogaeth - sy'n benderfynyddion iechyd pwysig (McNamara a Labonte, 2016; McNamara, 2015).

Mae tystiolaeth polisi yn amlygu pryderon y gallai'r ddarpariaeth ISDS o bosibl ganiatáu i fuddsoddwyr tramor herio polisïau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn meysydd fel

hawliau ac amddiffyn gweithwyr (Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021a; Arsyllfa Polisi Masnach y DU, 2021a). Mae enghreifftiau blaenorol o gwmnïau'n herio deddfwriaeth isafswm cyflog llywodraethau, yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus, yn ogystal â chyfreithiau cyflogaeth eraill sy'n mynd i'r afael ag iechyd a diogelwch (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2021; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018) a oedd yn gost i bwrs y wlad.

Gall safonau ac amddiffyniadau llafur effeithio ar iechyd trwy amrywiaeth o lwybrau sy'n ymwneud â chyflogau, amodau gwaith a sicrwydd economaidd (McNamara et al., 2021b). Mae astudiaethau'n dangos y gall newidiadau sy'n gysylltiedig â masnach mewn marchnadoedd llafur gael effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant, yn enwedig i weithwyr sy'n colli eu swyddi neu'n profi ansicrwydd cynyddol ar ôl i farchnadoedd agor i gystadleuaeth allanol a gall hyn achosi straen ac ansicrwydd aciwt am y dyfodol a chael effaith negyddol ar lesiant meddwl (Labonte et al., 2018). Nid yw darpariaethau llafur CPTPP yn mynd i'r afael ag amddiffyniad cymdeithasol, sy'n gyfle a gollwyd i ddarparu modd o liniaru effeithiau diweithdra posibl ar iechyd (McNamara a Labonte, 2016).

Yn olaf, nododd Cyngres yr Undebau Llafur (2018) y gallai agor marchnadoedd caffael cyhoeddus o bosibl gyfyngu ar allu awdurdodau cyhoeddus i gefnogi economïau sylfaenol a busnesau lleol sy'n cydnabod undebau llafur neu'n talu cyflogau byw. Mewn geiriau eraill, mae darpariaethau meini prawf dyfarnu yn y CPTPP yn gul a gallant annog contractio yn seiliedig ar y pris isaf yn hytrach nag ansawdd, mynediad ac uniondeb y gwasanaeth a ddarperir (Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Gallai hyn effeithio ar bolisi caffael presennol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022e; Llywodraeth Cymru 2019)

Fel y nodwyd yn Adran 3.1.3, gall diweithdra arwain at farwolaethau uwch, iechyd cyffredinol gwaeth, iechyd meddwl gwaeth, a mwy o ymgynghoriadau meddygol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022c). Mae diweithdra a straen economaidd hefyd yn ffactorau risg ar gyfer mwy o ddefnydd o gyffuriau, alcohol a thybaco (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023; Popovici a French, 2013; GIG, 2014; Public Health England, 2020; Drinkaware, dim dyddiad; Sefydliad Prydeinig y Galon, 2013; Montgomery et al., 1998; Lee et al., 1990; Henkel, 2011). Mae ansawdd gwaith hefyd yn cael effaith ar iechyd. Mae cymryd rhan mewn gwaith teg yn rhoi ymdeimlad o bwrrpas ac yn golygu bod gan bobl arian, amser ac adnoddau ar gyfer bywyd iach iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd. Gall gwaith teg, gwerth chweil a diogel leihau straen seicolegol, creu carreg gamu allan o dlodi a helpu plant dibynnol i gael y dechrau gorau mewn bywyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022c). Yn 2019, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) o Brexit, gan archwilio'r goblygiadau posibl ar gyfer iechyd a llesiant ar draws grwpiau poblogaeth (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019b). Cafodd fod gan Brexit lawer o oblygiadau negyddol posibl gan gynnwys, er enghraifft, risg uwch o ddiweithdra mewn sectorau sy'n agored iawn i fasnach, ac iechyd meddwl gwaeth oherwydd ansicrwydd a theimlad o beidio â bod mewn rheolaeth.

## Poblogaethau yr Effeithir Arnynt

Gallai fod effeithiau negyddol ar iechyd i lawer o **weithwyr a all ddod yn ddi-waith** o ganlyniad i'r DU yn ymuno â'r CPTPP a thariffau is sy'n arwain at fewnforion rhatach a fydd yn niweidiol i rai sectorau Cymreig – er enghraifft, y sectorau amaethyddol, modurrol a gweithgynhyrchu (McNamara a Labonte, 2016; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Mae'r bennod ar lafur hefyd yn methu â chydabod y rhai sy'n ddi-waith neu'r rhai mewn cyflogaeth ansicr ac anffurfiol (McNamara a Labonte, 2016).

Mae colli swyddi yn arwain at fwy o ymddygiad nad yw'n iach a mwy o risg i iechyd corfforol a meddyliol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2017). **Mae cymunedau sydd mewn mwy o berygl o ddiweithdra torfol** hefyd yn wynebu mwy o gystadleuaeth am swyddi (mae'r rhai sy'n ddi-waith ar hyn o bryd yn llai tebygol o ddod o hyd i waith); colli cysylltiadau cymunedol, rhwydweithiau cymdeithasol a mwy o arwahanrwydd cymdeithasol; mwy o straen; a dibrisio cartrefi mewn rhai ardaloedd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2017).

Gallai anghydraddoldebau iechyd presennol ymhlith poblogaethau sydd o **dan anfantais economaidd-gymdeithasol o bosibl gael ei waethygu gan ymuno â'r CPTPP**. Gall hyn fod oherwydd yr effeithiau ar sectorau a/neu ddiwydiannau penodol, yn enwedig y rhai a orgynrychiolir gan boblogaethau dan anfantais economaidd-gymdeithasol (McNamara, 2021b). Canfu HIA Brexit Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd fod poblogaethau dan anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith y rhai a oedd yn debygol o gael eu heffeithio waethaf gan risg uwch o ddiweithdra mewn sectorau risg uchel (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019b).

**Mae gweithwyr amaethyddol a ffermwyr** yn debygol o gael eu heffeithio. Yn gadarnhaol, fel aelod o CPTPP, efallai y bydd gan y DU fwy o gyfleoedd i gynyddu mynediad i'r farchnad ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru a gallai gael mynediad ffafriol lle mae ein cynhyrchwyr ar hyn o bryd yn wynebu rhwystrau tariff uchel a rhwystrau nad ydynt yn dariffau (Cyfweiliad 5,7). Er enghraifft, er bod cytundeb masnach dwyochrog ar waith, nid yw cig eidion a chig oen y DU yn gallu mynd i mewn i Fietnam o hyd oherwydd rhwystrau cymhleth, a fyddai'n cael eu dileu trwy ymuno â'r CPTPP (Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022).

Yn negyddol, gallai fod o bosibl yn anos i **ffermwyr bach** gystadlu â chorfforaethau mwy, yn rhannol oherwydd amddiffyniadau detholusrwydd data yn ogystal â chostau pecynnu a chludo cynyddol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022). Gallai hyn effeithio ar eu ffyniant economaidd o bosibl (gweler Adran 3.1.5) yn ogystal â'u llesiant meddwl (gweler Adran 3.1.3). Er y gallai cynnydd mewn mewforion gan aelodau CPTPP arwain at ffermwyr yn dwysau eu harferion neu'n arallgyfeirio, mae gan eu busnesau'r potensial i gau'n gyfan gwbl (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Mae'n bosibl y bydd gan y diwydiant pysgota oblygiadau tebyg i'r rhai a nodwyd ar gyfer ffermwyr.

Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) yn datgan y dylai sicrhau bod dangosyddion daearyddol y DU yn cael eu diogelu fod yn flaenoriaeth wrth negodi cytundeb ymuno â'r CPTPP. Gallai hyn ddiogelu cynhyrchion a enwir, fel halwynau môr Môn, fel oedd yn wir pan oedd y DU yn rhan o'r UE (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Fodd bynnag, mae Seland Newydd yn gyndyn o gytuno i'r ddarpariaeth hon, a gallai hyn atal ffermwyr y DU rhag gallu cystadlu ar delerau teg ag aelodau CPTPP a gallai atal iawndal o ran eu henw da am gynhyrchu nwyddau gwirioneddol o ansawdd uchel (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, 2021; Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 2021b; Canolfan Astudiaethau Polisi, 2022).

Mae perchnogion busnesau bach a chanolig a'u gweithwyr hefyd yn wynebu effeithiau negyddol posibl o ystyried yr effaith y gallai'r cytundeb masnach ei chael ar fewnforion ac allforion. Roedd mwyafrif y mentrau gweithredol yng Nghymru yn 2021 yn fusnesau bach a chanolig (SMEs) gyda rhwng 0 a 249 o gyflogeion (Llywodraeth Cymru, 2022d). Roeddent yn cyfrif am 99.4% o gyfanswm y mentrau yng Nghymru yn 2021.

Roedd microfentrau (0 i 9 o weithwyr) yn cyfrif am 95.0% o gyfanswm y mentrau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022d).



### 3.1.6 Mynediad i Wasanaethau Iechyd a Gofal



Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, ond mwy o effeithiau negyddol posibl; tymor canolig a hir

Mae mynediad at wasanaethau iechyd a meddyginiaethau yn un o'r materion a amlygwyd yn y dystiolaeth mewn perthynas â chytundebau masnach a'r CPTPP. Mae llawer o hyn oherwydd natur system gwasanaethau gofal iechyd y DU a'r gwerth a roddir ar y GIG gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Mae'n rhoi darlun cymhleth o'r effaith gadarnhaol a negyddol bosibl.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn benodol mewn trafodaethau a negodiadau CPTPP nad yw'r GIG 'i'w drafod', ond mae'n dal yn aneglur a fydd y GIG yn cael ei eithrio, neu sut y byddai hynny'n digwydd, o ddarpariaethau allweddol y cytundeb masnach ac os felly i ba raddau. Mae'n bosibl na fydd y GIG wedi'i gwmpasu gan y gwaharddiad gwasanaethau cyhoeddus gan ei fod ar hyn o bryd yn cystadlu â darparwyr gofal iechyd preifat (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018). Mae'r CPTPP yn mabwysiadu dull 'rhestr negyddol', sy'n golygu bod yr holl wasanaethau'n cael eu cynnwys oni bai eu bod wedi'u heithrio'n benodol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; McNamara et al., 2021b). Gan y caniateir i'r GIG dendro am wasanaethau penodol i'w darparu gan gwmnïau preifat, mae hyn yn ei gwneud yn anodd diffinio'r sector iechyd at ddibenion eithrio oherwydd gallai fod cwestiynau ynghylch beth mae hyn yn ei gynnwys ai peidio ac a fyddai'n cynnwys gofal cymdeithasol neu fynediad at farchnadoedd gofal iechyd preifat (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b). Felly, mae tystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau negyddol posibl ar fynediad at wasanaethau iechyd a meddyginiaethau pe bai'r GIG yn cael ei gynnwys ym manylion technegol y CPTPP.

Mae tystiolaeth yn pwysleisio'r effeithiau negyddol posibl ar iechyd a llesiant o ryddfrydoli gwasanaethau gofal iechyd ac agor prosesau caffael y llywodraeth (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021; BMA, 2018; McNamara et al., 2021b). Mae'n werth nodi, mae'r ffaith y gallai diwygiadau i wasanaethau'r GIG i fodloni gofynion y darpariaethau CPTPP presennol - er enghraifft, y rhyddfrydoli a symud i ragor o wasanaethau iechyd sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr preifat - fod yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol o bosibl a gallai fod yn rhwystr i ailwladoli gwasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; BMA, 2018; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018). Gallai effeithiau negyddol posibl ddod i'r amlwg hefyd oherwydd y defnydd posibl o ISDS i atal mesurau a fyddai'n cyfyngu ar gystadleuaeth neu'n atal gwladoli gwasanaethau iechyd yn y dyfodol (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Nuffield Trust, 2021). Mewn gwirionedd, gallai mecanwaith ISDS rwystro datblygiad modelau newydd o ofal a darparu gwasanaethau (BMA, 2018).

O fis Ebrill 2023, gyda gorffen yn llwyddiannus y trafodaethau CPTPP, mae'r Adran Busnes a Masnach wedi ailadrodd eto y bydd y GIG yn cael ei eithrio o ddarpariaethau allweddol (Poilitico, 2023). Fodd bynnag, mae'r manylion ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau nawr ac yn y dyfodol yn aneglur.

Ar gyfer gwledydd ledled y DU, gallai unrhyw effeithiau posibl gael eu teimlo'n wahanol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae gan ddarparwyr preifat fynediad gwarantedig helaeth i'r GIG yn Lloegr sydd wedi'i farchnata, er bod gofal a brynir yn dal i fod am ddim i gleifion yn y man defnyddio (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021). Fodd bynnag, yn wahanol i Loegr, nid oes unrhyw farchnadoedd mewnol yn yr Alban na Chymru i gael mynediad iddynt; dim ond i ddiwallu anghenion gwasanaeth diffiniedig na all y GIG eu cyflawni y caiff gofal ei gontractio allan – er enghraifft, i leihau rhestrau aros (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021). Felly, nid oes dim i'w agor, na'i ddiogelu, mewn cytundeb masnach (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021). Mae rhai arbenigwyr wedi nodi y gallai darpariaethau CPTPP gyfyngu ar bwerau gweinyddiaethau datganoledig dros ddarparu gwasanaethau o bosibl (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; BMA, 2018; Cyngres yr Undebau Llafur, 2018).

Gallai darpariaethau eiddo deallusol y CPTPP hefyd gael effeithiau negyddol posibl ar y boblogaeth oherwydd gallai arwain at gostau cynyddol meddyginiaethau, biolegau a dyfeisiau meddygol, a allai gael effeithiau negyddol posibl ar gyllidebau'r GIG (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b; BMA, 2018; Monasterio a Gleeson, 2014; Labonte et al., 2016). Mae pwyslais ar leihau cystadleuaeth, cyfyngu ar drafodaethau ar brisiau a dileu



profion am werth da - er enghraifft, y rhai a gymhwysir gan NICE yn y DU - yn nodweddion cyffredin mewn FTAs o fath yr UD ac yn caniatáu i gwmnïau godi prisiau uwch am gyffuriau llai effeithiol (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021). Yn ogystal, gallai hollti oddi wrth farchnad yr Undeb Ewropeaidd arwain at gostau uwch a gwaith papur i gyflwyno cynhyrchion gofal iechyd yn y DU (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021). Er enghraifft, nododd un arbenigwr masnach *'Efallai bydd cyflenwyr yr UE yn llai parod i fasnachu â chwmnïau ym Mhrydain, oherwydd costau uwch a gwaith papur. Byddai costau nwyddau a fewnforir bron yn sicr yn cynyddu'* (Boscia, 2023).

Mae'r CPTPP hefyd yn caniatáu ar gyfer 'bytholwyrddni' - sy'n golygu y gellir ymestyn patentau iawndal am 'oedi afresymol' o ran llywodraethau yn cyhoeddi patent, neu os yw'r cwmni fferyllol yn canfod *'defnyddiau newydd, dulliau newydd o ddefnyddio ... neu brosesau newydd'* ar gyfer eu meddyginiaeth (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021b) Yn yr un modd, mae'n ofynnol i aelodau ddarparu estyniadau tymor patent i wneud iawn am 'oedi afresymol neu ddiangen' yn y broses archwilio (Gleeson et al., 2018). Gallai hyn gael effaith gadarnhaol bosibl gan y gallai annog mwy o gwmnïau i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu gan arwain at fwy o feddyginiaethau yn y tymor hir (Park a Lippoldt, 2008). Fodd bynnag, gallai hefyd atal cwmnïau eraill rhag datblygu fersiynau cystadleuol neu generig o'r meddyginiaethau am gostau is i'w gwerthu i ddarparwyr gofal iechyd (Mudiad Cyfiawnder Masnach, 2018; Labonte et al., 2016; Luo a Kesselheim, 2015). Er bod rhai wedi dadlau bod y darpariaethau hyn yn ymddangos yn gydnaws â'r hyn y mae'r DU eisoes yn ei wneud, byddai hyn i bob pwrpas yn cloi'r rheoliadau presennol i mewn a gallai atal unrhyw lywodraethau'r DU yn y dyfodol rhag eu newid (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021).

Mae'r llenyddiaeth a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid hefyd yn nodi effeithiau negyddol posibl mewn perthynas â mynediad at feddyginiaethau. Mae hyn yn canolbwyntio ar newidiadau i fecanweithiau adolygu (er enghraifft, asesiadau technoleg iechyd) ar gyfer cost-effeithiolrwydd, a allai newid pa feddyginiaethau sydd wedi'u rhestru i'w defnyddio (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021; Ymddiriedolaeth Nuffield, 2019). Yn ogystal, gallai mecanweithiau adolygu gwannach atal y GIG rhag penderfynu peidio ag ariannu triniaethau a ystyrir yn llai cost effeithiol na'r dewisiadau eraill presennol neu rhag defnyddio eu pŵer cydfargeinio i gael bargaen well (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021). Mae gan hyn y potensial i gyfyngu ar argaeledd cyllid y gellir ei gyfeirio at ddarpariaeth gwasanaeth arall neu raglenni iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Gallai rhyddfrydoli'r diwydiant fferyllol hefyd gael effaith negyddol bosibl ar gyflenwad a chost meddyginiaethau gan y gallai'r CPTPP ganiatáu i aelodau herio cyfreithiau domestig y bwriedir iddynt hyrwyddo argaeledd amserol cyffuriau generig (McNamara et al., 2021b; Luo a Kesselheim, 2015; Cyfweliad 11). Mae wedi cael ei amlygu y gall *'meddyginiaethau brand gostio deg gwaith pris rhai generig neu fwy am yr un cynnyrch, felly gall hyd yn oed ychydig fisoedd neu fwy heb gystadleuaeth gostio degau neu hyd yn oed gannoedd o filiynau o wariant gwastraff i'r GIG heb unrhyw fudd clinigol i gleifion'* (Ymddiriedolaeth Nuffield, 2021).

Gall unrhyw gynnydd yng nghost meddyginiaethau arwain at ganlyniadau negyddol posibl, gan gynnwys llai o gymorthdaliadau meddyginiaeth ac opsiynau triniaeth a dargyfeirio'r cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol oddi wrth wasanaethau iechyd hanfodol eraill - er enghraifft, gwasanaethau i atal clefydau anhrosoglwyddadwy fel cancer neu glefyd cardiofasgwlaidd (Monasterio a Gleeson,

2014; Labonte et al., 2016; Luo a Kesselheim, 2015). Gallai hyn o bosibl gael effaith negyddol anghymesur ar gyllidebau'r sector cyhoeddus, sy'n cael eu gwasgu fwyfwy – er enghraifft oherwydd chwyddiant (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022b)

## Poblogaethau yr Effeithir Arnynt

Bydd y **gweithlu gofal iechyd** o bosibl yn cael eu heffeithio. Mae potensial am bethau cadarnhaol - er enghraifft, llif dwyochrog gweithwyr meddygol proffesiynol ar draws gwledydd i mewn i'r DU, a allai arwain at ehangu profiad, sgiliau a gwybodaeth gweithwyr meddygol proffesiynol yng Nghymru a chaniatáu iddynt ymgymryd â hyfforddiant penodol (GMC, 2018). Gallai mwy o gydnabyddiaeth i gymwysterau gweithwyr gofal iechyd o aelod-wledydd CPTPP, o'u cynnwys yn y cytundeb CPTPP, o bosibl liniaru rhywfaint o'r pwysau staffio yn y DU. Er enghraifft, disgrifiwyd gweithlu GIG Cymru fel un nad oes ganddo'r gallu ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaethau y mae'r boblogaeth yn gofyn amdanynt, a gostyngodd nifer y meddygon teulu yng Nghymru 2.3 y cant rhwng 2011 a 2020, tra bod y galw am ofal sylfaenol wedi cynyddu'n gyson (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2022; BMA Cymru, 2021).

Amlygodd dogfennau negodi rhagflaenydd y CPTPP, y Cytundeb Partneriaeth Traws-Môr Tawel (TPP), y gallai'r rheini â **chyflyrau hirdymor a chronig** gael eu heffeithio'n anghymesur gan lai o fynediad at feddyginiaethau, darparwyr gofal iechyd a rheoliadau hybu iechyd y cyhoedd (Monasterio a Gleeson, 2014). Tynnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021b) sylw at y ffaith mai'r darpariaethau hynny mewn cytundebau masnach sydd â goblygiadau o ran darparu meddyginiaethau a gwasanaethau iechyd sy'n gallu effeithio fwyaf ar bobl â chyflyrau hirdymor a chronig oherwydd, er enghraifft, cynnydd yng nghost meddyginiaethau neu newidiadau mewn recriwtio a chadw gweithlu. Fodd bynnag, gallai hefyd olygu y gallai fod mwy o fynediad at wasanaethau a chyflenwad staff meddygol oherwydd darpariaethau symudedd yn y CPTPP (GMC, 2018). Efallai y bydd y rhai â chyflyrau cronig hefyd â gwell mynediad at feddyginiaethau arloesol os yw estyniadau patent yn annog ymchwil a datblygiad mewn cyffuriau a thriniaethau newydd (Park a Lippoldt, 2008).

Mae'r anallu i gael mynediad at driniaeth, gwasanaethau diagnostig a brys yn aml yn cael effaith gorfforol a seicolegol ar gleifion gan y gallai cyflyrau waethygu; mae hyn yn cynyddu straen nid yn unig ar gleifion, ond ar y system iechyd hefyd (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2022). Mae gan y rhai â **llesiant meddwl gwael** eisoes fynediad cyfyngedig at driniaeth ac yn cael llai o ffocws ar driniaeth nac ar gyfer cyflyrau corfforol, a all gyfrannu at fwy o forbidrwydd a marwolaethau (Liu et al., 2017, Fiorillo a Sartorius, 2021) ac yn aml nid oes gan gleifion incwm isel fynediad at gyffuriau cost uwch (Luo a Kesselheim, 2015). Fodd bynnag, efallai mai dim ond os bydd mwy o breifateiddio neu ddefnydd o ofal iechyd preifat y tu allan i'r GIG lle byddai cleifion yn gyfrifol am dalu costau meddyginiaethau y byddai hon yn broblem wirioneddol.

## 4. Prif Ganfyddiadau

Amlygodd tystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid, llenyddiaeth lwyd, gwybodaeth iechyd a chyfweliadau rhanddeiliaid a dynnwyd ynghyd drwy'r broses asesu'r effaith ar iechyd (HIA), sef offeryn iechyd y cyhoedd uchel ei barch ac sydd wedi'i hen sefydlu, y canlynol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd yng Nghymru:

- **Mae masnach yn benderfynydd masnachol allweddol o iechyd ac yn bwysig ar gyfer economïau a chymdeithasau iach a gall ddarparu llawer o gyfleoedd** ar gyfer gwledydd sy'n masnachu a'u poblogaethau.
- 
- Mae'r **diffyg tryloywder ar fanylion y trafodaethau** hyd yma wedi gwneud nodi effeithiau posibl ar iechyd y cyhoedd yn heriol. Dau faes pwysig o ansicrwydd i'w hamlygu yw:
    - ◆ Sut y gallai darpariaethau Setliadau Anghydfodau Buddsoddwr Wladwriaeth (ISDS) ryngweithio â pholisi iechyd y cyhoedd; a
    - ◆ Y posibilrwydd o drafod llythyrau atodol ar feysydd penodol neu gyda rhai aelodau CPTPP, yn debyg i'r llythyr atodol iechyd y cyhoedd a drafodwyd ochr yn ochr â Chytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia. Gallai datblygu llythyrau atodol fod yn bwysig os ydynt yn mynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd allweddol sy'n ymwneud, er enghraifft, â rheoli tybaco, labelu bwyd, cydweithredu i reoli clefydau heintus, neu eithrio o fecanwaith ISDS.
- 
- **Gan nad yw'r DU wedi ymuno â'r CPTPP eto, mae'r effeithiau posibl ar Gymru yn benodol, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn rhai posibl ac nid yn rhai gwirioneddol.** Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gynllunio i gynnwys ystyriaeth o sut y gallai ymuno â'r CPTPP ddatblygu yn y tymor byr ond hefyd yn y tymor hwy, gan gydnabod y **gall sut y daw'r cytundeb i rym newid** yn dibynnu ar:
    - ◆ **Blaenoriaethau polisi llywodraethau'r dyfodol;** ac
    - ◆ **Aelodaeth o'r CPTPP** os bydd gwledydd ychwanegol yn ennill aelodaeth.
  - Mae tystiolaeth o wledydd sydd eisoes yn aelodau o'r CPTPP wedi'i defnyddio i lywio'r dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o bryderon tebyg gan wledydd eraill sydd eisoes yn aelodau o CPTPP, ynghylch effeithiau darpariaethau'r FTA, ond rhaid bod yn ofalus wrth drosglwyddo hyn i Gymru o ystyried y cyd-destunau cenedlaethol gwahanol.
-





- Mae gan y **CPTPP y potensial i effeithio ar ystod o faterion iechyd y cyhoedd** ar draws penderfynyddion cymdeithasol iechyd, **yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae'n ddarlun cymhleth a thechnegol o effaith.** Mae ganddo'r potensial i **effeithio ar wahanol boblogaethau mewn gwahanol ffyrdd, a all arwain at ehangu anghydraddoldebau iechyd presennol.**
  - ◆ **Mae effeithiau negyddol posibl yn y tymor hwy yn cynnwys** safonau bwyd a diogelwch is; diet a maethiad gwaeth; heriau i weithredu a chyflwyno polisiau ecogyfeillgar a sero net; mwy o ysmegu a defnydd o alcohol; llai o fynediad at wasanaethau gofal iechyd a meddyginiaethau a chost gynyddol y rhain; rheoliadau diogelu data gwannach yn arwain at straen a phryder ynghylch rhannu data personol.
  - ◆ **Mae'r bobl sydd fwyaf mewn perygl o'r effeithiau negyddol hyn yn cynnwys:** y rhai ar incwm isel neu o ardaloedd dan anfantais economaidd; y rhai â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a chyflyrau cronig.
  - ◆ **Gallai effeithiau a chyfleoedd economaidd cadarnhaol posibl yn y tymor hwy** gynnig gwelliannau iechyd a llesiant i rai, ond mae hyn yn ddibynnol iawn ar y buddion economaidd posibl yn gorbwysu niwed economaidd a niwed cymdeithasol posibl eraill.

---

- Nid yw HIA o'r CPTPP wedi'i gynnal ar lefel y DU, sy'n golygu nad yw effeithiau posibl y CPTPP ar iechyd, llesiant a thegwch ar gyfer y DU gyfan wedi'u nodi eto. **Mae HIA yn offeryn gwerthfawr y gallai Llywodraeth y DU a Llywodraethau eraill ei ddefnyddio i nodi effeithiau posibl y CPTPP** a chytundebau masnach eraill ar draws penderfynyddion cymdeithasol iechyd a thegwch ar wahanol gamau o'r broses negodi i **lywio a galluogi trafodaethau a gwneud penderfyniadau cynhwysol.**

---

- **Byddai ymchwil pellach i'r materion a nodwyd** fel rhan o'r gwaith hwn ac effaith cytundebau masnach yn gyffredinol **yn gwella'r ddealltwriaeth** o'r effeithiau iechyd, llesiant a thegwch posibl a pha **weithredu y gallai fod ei angen i liniaru risgiau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd.** Mae hyn yn cynnwys ar gyfer yr **effeithiau tymor hwy.**

---

- **Dylai gwaith adolygu a dadansoddi pellach** ddigwydd yn y dyfodol ar ôl i delerau terfynol y cytundeb gael eu cyhoeddi. Edrychwn ymlaen at weld telerau llawn y cytundeb ymuno ac rydym yn cydnabod y bydd goblygiadau llawn ymuno â'r CPTPP yn cymryd amser i ddod i'r amlwg ynghyd â mwy o dystiolaeth a dadansoddiadau cyhoeddedig.



## 4.1 Bylchau yn y Dystiolaeth

Byddai ymchwil pellach i'r materion a nodwyd fel rhan o'r gwaith hwn ac effaith cytundebau Masnach Rydd yn gyffredinol yn gwella'r ddealltwriaeth o'r effeithiau iechyd, llesiant a thegwch posibl a pha weithredu y gallai fod ei angen i liniaru risgiau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd.

Mae angen mwy o ymchwil a thystiolaeth i ddeall yn well effeithiau, a dosbarthiad yr effeithiau hynny, **yr FTAs ar draws grwpiau poblogaeth** yn eu cyfanrwydd neu ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol. Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth i wneud asesiad gwybodus am yr effeithiau ar rai poblogaethau yng Nghymru – er enghraifft, plant ac oedolion ifanc, poblogaethau mudol a ffoaduriaid, a phobl o ardaloedd gwledig neu arfordirol – neu mae'r dystiolaeth sydd ar gael wedi codi cwestiynau pellach. Ar gyfer rhai grwpiau poblogaeth, mae awgrym o effaith ond nid i ba raddau - er enghraifft, mae McNamara (2021) yn dadlau mai tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar sut mae gwahanol grwpiau cymdeithasol yn y DU wedi cael eu heffeithio, neu y byddant yn cael eu heffeithio, yn wahanol gan fasnach a sut y gall masnach gynyddu anghydraddoldebau iechyd. Ychydig o sylw a roddwyd i rôl masnach wrth lunio dosbarthiadau anghyfartal o ran iechyd (McNamara, 2021b).

Mae angen casglu mwy o ymchwil neu dystiolaeth i gael gwell dealltwriaeth o oblygiadau **tymor byr a thymor hwy** CPTPP ar grwpiau poblogaeth a phenderfynyddion iechyd. Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth i wneud asesiad gwybodus neu mae'r dystiolaeth sydd ar gael wedi codi cwestiynau pellach.

Mae proses negodi masnach CPTPP wedi dangos bod angen mwy o ymchwil a thystiolaeth **ar benderfynyddion megis dylanwadau cymunedol a chymdeithasol** yn ogystal â democratiaeth a chymryd rhan mewn negodiadau a thrafodaethau ynghylch pob cytundeb masnach. Gellir rhoi mwy o ystyriaeth i faterion a phryderon ynghylch tryloywder, trosolwg a chraffu yn y trafodaethau polisi masnach. Mae hyn eto'n amlygu pam mae HIA yn offeryn pwysig i asesu effeithiau posibl darpariaethau cytundebau masnach a'u gwneud yn destun trafodaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn caniatáu craffu ar ôl i gytundebau masnach gael eu rhoi ar waith.

## 4.2 Camau Gweithredu yn y Dyfodol

Ymhlith y camau gweithredu a all helpu i ddiogelu a hybu iechyd, llesiant a thegwch y boblogaeth mewn perthynas â FTAs a thrafodaethau masnach mae:

- **Dylai llywodraethau'r DU a llywodraethau eraill ddefnyddio HIAs fel offeryn gwerthfawr sy'n nodi effeithiau posibl y CPTPP a chytundebau masnach eraill** ar draws penderfynyddion ehangach iechyd, llesiant a thegwch. Gellir gweithredu'r rhain ar wahanol gamau o'r broses negodi a gweithredu er mwyn llywio a galluogi trafodaeth gynhwysol a gwneud penderfyniadau.
- **Eithriadau priodol o ISDS i alluogi'r DU a'r gwledydd datganoledig i ddeddfu ar gyfer polisiau cyhoeddus iach** sy'n ymwneud, er enghraifft, â labelu neu hysbysebu alcohol a bwyd heb her gyfreithiol, neu ofn her gyfreithiol sy'n arwain at amharodrydd rheoliadol. Gall hyn hefyd **ddiogelu cyllid cyhoeddus** rhag y risg o heriau cyfreithiol drud.
- Cyhoeddi testun terfynol y cytuniad yn agored ac yn dryloyw ac unrhyw ddadansoddiad gan Lywodraeth y DU i gefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid, craffu a thrafodaeth.

- **Negodi llythyrau atodol ag aelod-wledydd CPTPP unigol i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd allweddol gan gynnwys:**
  - ◆ eithriad ISDS;
  - ◆ labelu a rheoli tybaco ac alcohol;
  - ◆ labelu, cynnwys a safonau bwyd;
  - ◆ cydweithredu i reoli clefydau heintus;
  - ◆ amddiffyniad a hawliau gweithwyr;
  - ◆ cytundebau cydweithredu ar lif y proffesiynau gweithlu iechyd;
  - ◆ gweithredu ar yr amgylchedd, hinsawdd ac argyfyngau natur.
- **Ni ddylai caffael cynaliadwy a deddfwriaeth** ar drws y DU gael eu tanseilio gan ddarpariaethau cytundebau masnach rydd.
- Mae gan Gymru dirwedd bolisi arbennig gan gynnwys **deddfwriaeth, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) y mae angen ei hystyried mewn trafodaethau cytundeb masnach.**
- **Rhaid i ymarferwyr iechyd y cyhoedd a swyddogion polisi ddysgu o achosion cyfreithiol llwyddiannus ac aflwyddiannus blaenorol** lle mae cwmnïau preifat a chorfforaethau rhyngwladol wedi herio polisiau iechyd y cyhoedd. Rhaid iddynt wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod polisiau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol yn cael eu diogelu.
- **Ymdrechion parhaus i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall polisi a chytundebau masnach effeithio ar iechyd a pholisiau a deddfwriaeth cyhoeddus iach.** Mae gan Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd, asiantaethau fel Sefydliad Iechyd y Byd, cymdeithas sifil ac academia rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth.
- Er mwyn helpu i osgoi effeithiau negyddol anfwriadol cytundebau masnach, fel y CPTPP, ar iechyd, llesiant a thegwch mae angen i'r DU a'u llywodraethau **wneud darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â chynrychiolwyr iechyd y cyhoedd a chymdeithas sifil.** Dylai hyn fod **o leiaf yn cyfateb i'r rhai a roddir i randdeiliaid busnes** o dan y CPTPP neu gytundebau masnach eraill.
- **Byddai ymchwil pellach i'r materion a nodwyd fel rhan o'r gwaith hwn ac effaith cytundebau masnach yn gyffredinol yn gwella'r ddealltwriaeth** o'r effeithiau iechyd a thegwch posibl a **pha weithredu y gallai fod ei angen i liniaru risgiau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd.** Mae hyn yn cynnwys dal **effeithiau tymor hwy** cytundebau masnach ar iechyd a llesiant.

# Casgliad

Gellir defnyddio canfyddiadau'r HIA hwn i lywio gweithrediad y DU yn ymuno â'r CPTPP i wneud y mwyaf o'r buddion posibl i iechyd y cyhoedd a lliniaru unrhyw risgiau posibl. Gellir ei ddefnyddio hefyd i graffu a monitro unrhyw effaith yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at weld telerau llawn y cytundeb.

**Mae HIA y CPTPP wedi nodi ystod o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar iechyd a llesiant yng Nghymru.** Mae'n darparu gwell dealltwriaeth o'r effaith ar draws y boblogaeth gyfan yn ogystal ag ar gyfer gwahanol grwpiau poblogaeth; gan ddatgelu ei botensial i ehangu anghydraddoldebau presennol, yn enwedig o ystyried y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd presennol yn y DU ac yn rhyngwladol.

**Mae HIA yn offeryn iechyd y cyhoedd buddiol, sydd wedi'i hen sefydlu.** Mae ei elfen gyfranogol, mewn cydweithrediad â natur seiliedig ar dystiolaeth yr asesiad, yn ychwanegu gwerth a thystiolaeth a gwybodaeth gyd-destunol i ffurfio darlun cyfannol o effaith. Yn hollbwysig, gall nodi meysydd gweithredu posibl ar gyfer eiriolwyr iechyd y cyhoedd a **thynnu sylw at bwysigrwydd effeithiau iechyd, llesiant a thegwch i'r rhai sy'n negodi, ffurfio a gweithredu polisi a chytundebau masnach. Edrychwn ymlaen at weld telerau llawn y cytundeb.**



# Cyfyngiadau

Mae'r effeithiau yn yr adroddiad wedi'u seilio ar lenyddiaeth gadarn a adolygwyd gan gymheiriaid, ystod eang o gyfweiliadau â rhanddeiliaid a llenyddiaeth lwyd. Mae'r effeithiau a nodwyd yn bosibl ac nid yn rhai gwirioneddol gan nad yw'r CPTPP wedi'i weithredu yn y DU eto.

Mae bylchau yn y llenyddiaeth academiaidd. Yn yr un modd, mae data a gyhoeddir yn agored a thystiolaeth benodol ar effeithiau iechyd, llesiant a thegwch y CPTPP, ac yn fwy penodol FTAs ar gyfer y DU a Chymru, yn brin. Nid yw ychwaith yn golygu nad yw wedi'i gynnal ond oherwydd y diffyg tryloywder ynghylch cytundebau masnach mae hyn yn golygu mai dim ond ar sail yr hyn a gyhoeddir y gellir cynnal HIAs. Bydd y sylfaen dystiolaeth yn ehangu wrth i ddiddordeb gynyddu, a dadansoddiadau'r llywodraeth yn cael eu rhyddhau a'u cyhoeddi'n dryloyw yn y tymor byr a'r hirdymor wrth i fwy o dystiolaeth ddod i'r amlwg. Mae angen i lunwyr polisi a llunwyr phenderfyniadau gael tystiolaeth a gwybodaeth am effeithiau tymor byr a thymor hir cytundebau masnach fel y CPTPP ar boblogaethau yn y DU.

O'r herwydd, bydd angen adolygu a diweddarau canfyddiadau'r HIA hwn o bryd i'w gilydd yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Lle mae effeithiau wedi'u seilio ar dystiolaeth ryngwladol, yn hytrach na thystiolaeth o Gymru neu'r DU, mae hyn wedi'i nodi.



# Cyfeiriadau

- AHDB (Agriculture and Horticulture Development Board) (2021) EU Exit Perspectives: Joining CPTPP – What could it mean for UK agriculture? [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://ahdb.org.uk/news/eu-exit-perspectives-joining-cptpp-what-could-it-mean-for-uk-agriculture> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- American Cancer Society (2018a) Final Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership Includes Historic Tobacco Control Provision. Press Release. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.fightcancer.org/releases/final-comprehensive-and-progressive-agreement-trans-pacific-partnership-includes-historic> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- American Cancer Society (2018b) Trade Agreement Snuffs Out Big Tobacco Avenue for Public Health Challenges; Sets Global Precedent. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.fightcancer.org/cancer-candor/trade-agreement-snuffs-out-big-tobacco-avenue-public-health-challenges-sets-global> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Bezruchka, S (2009) The effect of economic recession on population health. CMAJ. 181(5); 281-285.
- BMA (British Medical Association) (2018) Consultation on the UK potentially seeking accession to the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership. [Ar-lein]. Ar gael yn: [bma-consultation-on-seeking-accession-to-cptpp-oct-18.pdf](https://www.bma.org.uk/media/4810/bma-wales-response-to-an-healthier-wales-our-workforce-strategy-for-health-and-social-care-consultation-oct21.pdf) (Cyrchwyd 28 Rhagfyr 2022)
- BMA Cymru Wales (2021) Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol: ymgynghoriad gan Senedd Cymru a'r Pwyllgor Gofal Cymdeithasol. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.bma.org.uk/media/4810/bma-wales-response-to-an-healthier-wales-our-workforce-strategy-for-health-and-social-care-consultation-oct21.pdf> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)
- Boscia, S (2023) Brexit red tape to send UK food prices soaring even higher. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.politico.eu/article/uk-business-fear-brexits-checks-food-price-inflation/> (Cyrchwyd 18 Mai 2023)
- Business and Human Rights Resource Centre (2022) Submission to the International Trade Committee's inquiry 'UK trade negotiations: CPTPP accession'. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://committees.parliament.uk/writtenevidence/110788/pdf/> (Cyrchwyd 20 Chwefror 2023)
- Campaign for Tobacco Free Kids (dim dyddiad) The Trans-Pacific (TPP) presents an opportunity to end the abusive tobacco industry trade lawsuits which are both undermining legitimate tobacco control policies and complicating trade negotiations. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://www.tobaccofreekids.org/assets/content/what\\_we\\_do/federal\\_issues/trade/ISDS\\_TFK\\_ACS\\_CAN\\_Fact\\_Sheet\\_May\\_2015.pdf](https://www.tobaccofreekids.org/assets/content/what_we_do/federal_issues/trade/ISDS_TFK_ACS_CAN_Fact_Sheet_May_2015.pdf) (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Cancer Research UK (2016) Improving awareness of the English cancer registry amongst patients, health professionals and the public: review of informed choice for cancer registration. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.macmillan.org.uk/documents/policy/improving-awareness-of-the-english-cancer-registry.pdf> (Cyrchwyd 22 Ebrill 2023)
- Capaldo, J; Izurieta, A and Sundaram, J.K. (2016) Trading Down: Unemployment, Inequality and Other Risks of the Trans-Pacific Partnership Agreement. Global Development and Environment Institute – Working Paper No. 16-01. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.bu.edu/eci/files/2019/11/16-01-Capaldo-Izurieta-TPP.pdf> (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023)
- Centers for Disease Control and Prevention (2022) Alcohol and Public Health. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.cdc.gov/alcohol/fact-sheets/alcohol-use.htm#:~:text=Long-Term Health Risks,liver disease%2C and digestive problems.&text=Cancer of the breast%2C mouth,liver%2C colon%2C and rectum> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)
- Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Looking East: The Case for UK Membership of CPTPP. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://cps.org.uk/wp-content/uploads/2022/01/Looking-East-CPS.pdf> (Cyrchwyd 28 Rhagfyr 2022)
- CPTPP (Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership) (2016) Annex to CPTPP/COM/19/D002: Accession Process. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.mfat.govt.nz/assets/Trade-agreements/CPTPP/Accession-Process.pdf> (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023)
- Congressional Research Service (2016) The Trans-Pacific Partnership (TPP): Key Provisions and Issues for Congress. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://sgp.fas.org/crs/row/R44489.pdf> (Cyrchwyd 20 Chwefror 2023)
- Dahlgren, G a Whitehead, M (1991) Policies and strategies to promote social equity in health. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://core.ac.uk/download/pdf/6472456.pdf> (Cyrchwyd 15 Mawrth 2023)
- Adran Busnes a Masnach (2023) Conclusion of Negotiations on the Accession of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland to the Comprehensive and Progressive Trans-Pacific Partnership. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/comprehensive-and-progressive-agreement-for-trans-pacific-partnershipcptpp-conclusion-of-negotiations/conclusion-of-negotiations-on-the-accession-of-the-united-kingdom-of-great-britain-and-northern-ireland-to-the-comprehensive-and-progressive-trans-pac#the-agreement> (Cyrchwyd 19 Mai 2023)
- Department for International Trade (2021a) UK Accession to CPTPP: The UK's Strategic Approach. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1027860/dit-cptpp-uk-accession-strategic-approach.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1027860/dit-cptpp-uk-accession-strategic-approach.pdf) (Cyrchwyd 28 Rhagfyr 2022)
- Adran Masnach Ryngwladol (2021b) UK applies to join huge Pacific trade area CPTPP. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/uk-applies-to-join-huge-pacific-free-trade-area-cptpp> (Cyrchwyd 22 Ebrill 2023)
- Adran Masnach Ryngwladol Trade (2021c) UK welcomes CPTPP nations' invitation to begin accession. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/uk-welcomes-cptpp-nations-invitation-to-begin-accession> (Cyrchwyd 22 Ebrill 2023)
- Adran Masnach Ryngwladol Trade (2023) Letter to Chair, International Trade Committee. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://committees.parliament.uk/publications/33912/documents/185601/default/> (Cyrchwyd 13 Mawrth 2023)
- Drinkaware (dim dyddiad). Alcohol and mental health. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.drinkaware.co.uk/facts/health-effects-of-alcohol/mental-health/alcohol-and-mental-health#:~:text=Regular%2C heavy drinking interferes with, stress harder to deal with> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)



- Comisiwn Ewropeaidd (dim dyddiad) Adequacy Decisions. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://commission.europa.eu/law/law-topic/data-protection/international-dimension-data-protection/adequacy-decisions\\_en](https://commission.europa.eu/law/law-topic/data-protection/international-dimension-data-protection/adequacy-decisions_en) (Cyrchwyd 13 Mawrth 2023)
- Senedd Ewrop (2015) Investor-State Dispute Settlement (ISDS): State of play and prospects for reform. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/BRIE/2015/545736/EPRS\\_BRI\(2015\)545736\\_EN.pdf](https://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/BRIE/2015/545736/EPRS_BRI(2015)545736_EN.pdf) (Cyrchwyd 28 Chwefror 2023)
- European Patent Office (EPO) (n.d.) Glossary. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.epo.org/service-support/glossary.html> (Cyrchwyd 28 Chwefror 2023)
- Exports News (2021) UK wants to join CPTPP but how will it impact trade? [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://exportsnews.com/post/uk-wants-to-join-cptpp-but-how-will-it-impact-trade> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Gwaith Teg Cymru (2019) Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/fair-work-wales.pdf> (Cyrchwyd 19 Mai 2023)
- Fiorillo, A a Sartorius, N (2021) Mortality gap and physical comorbidity of people with severe mental disorders: the public health scandal. *Annals of General Psychiatry*. 20(52)
- Fluharty, M; Taylor, A; Grabski, M a Munafo, M (2017). The Association of Cigarette Smoking with Depression and Anxiety: A Systematic Review. *Nicotine & Tobacco Research*. 3-13.
- Food and Agriculture Organization of the United Nations (n.d.) Building capacity related to Multilateral Environmental Agreements in African, Caribbean and Pacific countries (ACP MEAs 3). [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.fao.org/in-action/building-capacity-environmental-agreements/overview/what-are-meas/en/> (Cyrchwyd 28 Chwefror 2023)
- Fooks, G a Gilmore, AB (2013). International trade law, plain packaging and tobacco industry political activity: The trans-pacific partnership. *Tobacco Control*. 1-9.
- Friel, S; Gleeson, D; Thow, A; Labonte, R; Stuckler, D; Kay, A a Snowdon, W (2013) A new generation of trade policy: Potential risks to diet-related health from the trans pacific partnership agreement. *Globalization and Health*. 9(46); 46-52.
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-English.pdf> (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023).
- Gleeson, D; Lexchin, J; Lopert, R a Kilic, B (2018) The Trans Pacific Partnership Agreement, intellectual property and medicines: differential outcomes for developed and developing countries. *Global Social Policy*. 18(1); 7-27.
- GMC (General Medical Council) (2018) GMC response to consultation on potentially seeking accession to the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership (CPTPP). [Ar-lein]. Ar gael yn [https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/gmc-response-to-dit-on-seeking-accession-to-the-cptpp---october-2018\\_pdf-78468431.pdf](https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/gmc-response-to-dit-on-seeking-accession-to-the-cptpp---october-2018_pdf-78468431.pdf) (Cyrchwyd 28 Rhagfyr 2022)
- Green, L; Edmonds, N; Morgan, L; Andrew, R; Ward, M; Azam, S a Bellis, M.A. (2019) Effaith Iechyd y Cyhoedd Brexit ar Gymru: Dull Asesu'r Effaith ar Iechyd: Prif Ganfyddiadau. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn [https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/Implications-of-Brexit\\_Main-Findings.pdf](https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/Implications-of-Brexit_Main-Findings.pdf) (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023)
- Greener UK (2021) Greener UK briefing on the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://greeneruk.org/sites/default/files/download/2021-08/Greener\\_UK\\_briefing\\_on\\_the\\_CPTPP.pdf](https://greeneruk.org/sites/default/files/download/2021-08/Greener_UK_briefing_on_the_CPTPP.pdf) (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Henkel, D (2011) Unemployment and Substance Use: A Review of the Literature (1990 – 2010). *Curr Drug Abuse Rev*. 4(1); 4-27.
- Herbert Smith Freehills (2018) New Zealand signs side letters with five CPTPP members to exclude compulsory investor state dispute settlement. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://hsfnotes.com/arbitration/2018/05/09/new-zealand-signs-side-letters-with-five-cptpp-members-to-exclude-compulsory-investor-state-dispute-settlement/?utm\\_source=mondaq&utm\\_medium=syndication&utm\\_term=International-Law&utm\\_content=articleoriginal&utm\\_campaign=article](https://hsfnotes.com/arbitration/2018/05/09/new-zealand-signs-side-letters-with-five-cptpp-members-to-exclude-compulsory-investor-state-dispute-settlement/?utm_source=mondaq&utm_medium=syndication&utm_term=International-Law&utm_content=articleoriginal&utm_campaign=article) (Cyrchwyd 11 Ionawr 2023).
- Hirono, K; Haigh, F; Gleeson, D; Harris, P a Thow, AM (2015) Negotiating healthy trade in Australia: health impact assessment of the proposed Trans-Pacific Partnership Agreement. [Ar-lein]. Ar gael yn: [http://hiaconnect.edu.au/wp-content/uploads/2015/03/TPP\\_HIA.pdf](http://hiaconnect.edu.au/wp-content/uploads/2015/03/TPP_HIA.pdf) (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023)
- Hirono, K; Haigh, F; Gleeson, D; Harris, P; Thow, AM a Friel, S (2016a). Is health impact assessment useful in the context of trade negotiations? A Case study of the Trans Pacific Partnership Agreement. *BMJ Open*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://bmjopen.bmj.com/content/bmjopen/6/4/e010339.full.pdf> (Cyrchwyd 26 Ionawr 2023)
- Hirono, K; Gleeson, D a Freeman, B (2016b) To what extent does a tobacco carve-out protect public health in the Trans-Pacific Partnership Agreement? *BMJ Open*. Ar gael yn: <https://bmjopen.bmj.com/content/bmjopen/6/4/e010339.full.pdf> (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023)
- Identity Theft Resource Center (2021) 2021 Consumer Aftermath Report: How Identity Crimes Impact Victims, their Families, Friends, and Workplaces. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://www.idtheftcenter.org/wp-content/uploads/2021/09/ITRC\\_2021\\_Consumer\\_Aftermath\\_Report.pdf](https://www.idtheftcenter.org/wp-content/uploads/2021/09/ITRC_2021_Consumer_Aftermath_Report.pdf) (Cyrchwyd 20 Chwefror 2023)
- Sefydliad Llywodraethu (2020) Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership (CPTPP). [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.instituteforgovernment.org.uk/article/explainer/comprehensive-and-progressive-agreement-trans-pacific-partnership-cptpp> (Cyrchwyd 28 Chwefror 2023)
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr (2022) Flying the flag for Global Britain: How valuable is CPTPP for the UK really? [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.iod.com/news/global-business/flying-the-flag-for-global-britain-how-valuable-is-cptpp-for-the-uk-really/> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) UK accession to the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership (CPTPP): Scrutiny of the Government's Negotiating Objectives. House of Lords Paper 94. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://committees.parliament.uk/publications/7859/documents/81612/default/> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021b) Corrected oral evidence: Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership (CPTPP) and UK-Australia Trade Negotiations. House of Lords. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://committees.parliament.uk/oralevidence/2348/pdf/> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021c) CPTPP negotiations on patents. House of Lords. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://committees.parliament.uk/publications/6320/documents/69485/default/> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Canolfan Setliadau Anghydfodau Buddsoddi (ICSID) (dim dyddiad) About ICSID. World Bank Group. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://icsid.worldbank.org/About/ICSID> (Cyrchwyd 28 Chwefror 2023)
- International Energy Charter (dim dyddiad) The Energy

- Charter Treaty. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.energycharter.org/process/energy-charter-treaty-1994/energy-charter-treaty/> (Cyrchwyd 22 Ebrill 2023)
- Sefydliad Rhyngwladol Datblygiad Cynaliadwy (IISD) (2022) Energy Charter Treaty Withdrawal Announcements Reflect Reform Outcome is Insufficient for Climate Ambition. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.iisd.org/articles/statement/energy-charter-treaty-withdrawal-announcements> (Cyrchwyd 22 Ebrill 2023)
- Labonté, R; Ruckert, A a Schram, A (2018) Trade, investment and the global economy: Are we entering a new era for health? *Global Social Policy*. 18(1); 28–44.
- Labonté, R; Schram, A a Ruckert, A (2016) The Trans-Pacific Partnership: Is It Everything We Feared For Health? *International Journal of Health Policy and Management*. 5; 1–10.
- Lee, AJ; Crombie, IK; Smith, WC a Tunstall-Pedoe, H (1990) Alcohol consumption and unemployment among men: the Scottish Heart Health Study. *Br J Addict*. 85(9); 1165–1170.
- Legal Futures (2019). Mental health issues following a data breach are an overlooked risk. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.legalfutures.co.uk/associate-news/mental-health-issues-following-a-data-breach-are-an-overlooked-risk> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Liu et al. (2017) Excess mortality in persons with severe mental disorders: a multilevel intervention framework and priorities for clinical practice, policy and research agendas. *World Psychiatry*. 16(1); 30–40.
- Luo, J a Kesselheim, AS (2015) The Trans-Pacific Partnership Agreement and implications for access to essential medicines. *JAMA*. 314; 1563–1564.
- McNamara, CL (2021a) The threat of a UK-US trade deal to managing non-communicable diseases. *BMJ*. 374(1630).
- McNamara, CL (2021b) Trade, COVID-19 and health inequalities. *PETRA*. Briefing Paper. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://petranetwork.org/resources/trade-covid-19-and-health-inequalities/> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- McNamara, CL; Green, L; Barlow, P a Bellis, M (2023) The CPTPP trade deal is a major threat to public health and warrants a health impact assessment. *BMJ*. 381.
- McNamara, CL (2015) Trade Liberalization, social policies and health: an empirical case study. *Globalization and Health*. 11(1); 42.
- McNamara, CL a Labonté, R (2017) Trade, Labour Markets and Health: A Prospective Policy Analysis of the Trans-Pacific Partnership. *Int J Health Serv*. 47(2); 277–97.
- McNamara, CL a Labonté, R (2019) Trade Agreements, Human Rights, and Health in the Context of Labour markets and Environmental Standards. *Canadian Yearbook of Human Rights*. HRREC-University of Ottawa Canada. Vol. II; 157–166.
- McNamara, CL; Labonté, R; Schram, A a Townsend, B (2021a) Glossary on free trade agreements and health part 1: the shift from multilateralism and the rise of 'WTO-Plus' provisions. *J Epidemiol Community Health*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://jech.bmj.com/content/early/2021/01/05/jech-2020-215104> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- McNamara, CL; Labonté, R; Schram, A a Townsend, B (2021b) Glossary on free trade agreements and health part 2: new trade rules and new urgencies in the context of COVID-19. *J Epidemiol Community Health*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://jech.bmj.com/content/early/2021/01/06/jech-2020-215105> (Cyrchwyd 16 Ionawr 2023)
- Monasterio, E a Gleeson, D (2014) The Trans Pacific Partnership Agreement: Exacerbation of inequality for patients with serious mental illness. *Australian and New Zealand Journal of Psychiatry*, 48(12), 1075–1174. DOI: <https://doi.org/10.1177/0004867414557679>
- Montgomery, SM; Cook, DG; Bartley, MJ a Wadsworth M (1998) 'Unemployment, cigarette smoking, alcohol consumption and body weight in young British men'. *Eur J Public Health*. 8; 21–7.
- Morita-Jaeger, M (2021) Challenges ahead for the UK to join CPTPP. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://blogs.sussex.ac.uk/uktpo/2021/04/16/challenges-ahead-for-the-uk-to-join-cptpp/#\\_ftnref5](https://blogs.sussex.ac.uk/uktpo/2021/04/16/challenges-ahead-for-the-uk-to-join-cptpp/#_ftnref5) (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023).
- NASPO (dim dyddiad) NASPO Green Purchasing Guide. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.naspo.org/green-purchasing-guide/#GG> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) (2021) National Farmers' Union (NFU) – (CPT0033). UK Parliament. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://committees.parliament.uk/writtenevidence/23830/pdf/> (Cyrchwyd 9 Ionawr 2023)
- Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2014) Substance Misuse and Mental Health. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.rdash.nhs.uk/wp-content/uploads/2015/02/Substance-misuse-and-mental-health-leaflet-10.17.pdf> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)
- Nuffield Trust (2019) Could the NHS be the price of a US trade deal? [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.nuffieldtrust.org.uk/news-item/could-the-nhs-be-the-price-of-a-us-trade-deal#they-pay-more> (Cyrchwyd 22 Ebrill 2023)
- Nuffield Trust (2021) Will the NHS be on the table for a Pacific trade deal? Nuffield Trust. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.nuffieldtrust.org.uk/news-item/will-the-nhs-be-on-the-table-for-a-pacific-trade-deal> (Cyrchwyd 28 Rhagfyr 2022)
- Olsen, NV a Motarjemi, Y (2014) Food Safety Assurance Systems: Food Safety and Ethics. In: *Food Science*. Encyclopedia of Food Safety. 4; 340–344.
- ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol) (2022) Alcohol-specific deaths in the UK: registered in 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/alcohol-specific-deaths-in-the-uk/2021registrations#alcohol-specific-deaths-by-uk-constituent-country> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)
- Park, WG a Lippoldt, DC (2008) Technology Transfer and the Economic Implications of the Strengthening of Intellectual Property Rights in Developing Countries. OECD Trade Policy Working Papers. No. 62, OECD Publishing.
- Politico (2022) Rishi Sunak rips up Boris Johnson's trade deal playbook. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://pro.politico.eu/news/156377> (Access 23 Ebrill 2023)
- Politico (2023a) Europe eyes a breakthrough in electric vehicle spat. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.politico.com/newsletters/weekly-trade/2023/03/06/europe-eyes-a-breakthrough-in-electric-vehicle-spat-00085596> (Cyrchwyd 13 Mawrth 2023)
- Politico (2023b) UK Businesses pray Rishi Sunak can sell a Brexit deal. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://pro.politico.eu/news/159894> (Cyrchwyd 13 Mawrth 2023)
- Politico (2023c) UK-Canada trade chiefs to meet after 'sour' Indo-Pacific talks. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://pro.politico.eu/news/161021> (Cyrchwyd 13 Mawrth 2023)
- Popovici, I a French, MT (2013) Does unemployment lead to greater alcohol consumption? *Ind Relations A J Econ Soc*. 52(2); 444–6.
- Public Health England (2020) Health matters: smoking and mental health. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/health-matters-smoking-and-mental-health#:~:text=A meta-analysis and systematic, and psychological quality of life> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017). Digwyddiadau Diweithdra Torfol (MUEs) – Atal ac Ymateb o Safbwynt Iechyd y Cyhoedd. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/policy-and-international-health-who-collaborating-centre-on-investment-for-health-well-being/publications-and-resources-bucket/mass-unemployment-events-mues-prevention-and-response-from-a-public-health/> (Cyrchwyd 22 Ebrill 2023)

- Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019a). Gordewdra yng Nghymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/topics/obesity/obesity-in-wales-report-pdf/> (Cyrchwyd 13 Mawrth 2023)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019b) Goblygiadau Iechyd y Cyhoedd Brexit yng Nghymru: Dull Asesu'r Effaith ar Iechyd (Prif Ganfyddiadau). [Ar-lein]. Ar gael yn: [http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW\\_Implications\\_of\\_Brexit\\_Main\\_Findings.pdf](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW_Implications_of_Brexit_Main_Findings.pdf) (Cyrchwyd 14 Mawrth 2023)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020a) Cloddio Data yng Nghymru: y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sywleddau 2019-2020. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/data-mining-wales-the-annual-profile-for-substance-misuse-2019-20/> (Cyrchwyd 13 Mawrth 2023)
